



Dysgu'r gwersi: Ymgyrch Pallial

Comisiynydd Plant Cymru
Ionawr 2015

Diolchiadau

Gyda diolch i'r unigolion a oroesodd ac a roddodd eu hamser gan siarad mor onest. Mae eu profiad yn un hynod bersonol a'r gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn gallu gwneud rhywfaint i ad-dalu'r ymddiriedaeth maen nhw wedi'i dangos. Gobeithio y bydd dysgu'r gwersi a gweithredu ar eu profiad yn helpu ymchwiliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag oedolion sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol a chorfforol.

Mae'r adroddiad yma ar gael mewn fformatau eraill drwy roi galwad i ni ar 01792 765600 neu drwy anfon e-bost aton ni yn post@complantcymru.org.uk

Cynnwys

1. Rhagair Keith Towler,
Comisiynydd Plant Cymru

2. Cyflwyniad

3. Gwreiddiau Ymgyrch Pallial
a'i Grŵp Cydlyn Strategol

4. Dysgu'r Gwersi

- a. Persbectif y Goroeswyr
- b. Cyfathrebu
- c. Cymorth i Oroeswyr a Phontio
- d. Goblygiadau i blant mewn lleoliadau gofal yng Nghymru heddiw

5. Casgliad

Rhagair Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

Rhagfyr 2014

Yn gynharach eleni, gofynnodd Keith Bristow, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i mi gydlynu a chyhoeddi adroddiad yn edrych ar sut mae asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron, awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, NSPCC a Chymorth i Ddiodefwrwyr wedi cydweithio i gynorthwyo'r achwynwyr a fu'n ymwneud ag Ymgyrch Pallial. Mae'r asiantaethau hyn, ynghyd â fi fel Comisiynydd Plant Cymru, yn rhan o Grŵp Cydlynu Strategol Ymgyrch Pallial.

Bydd yr adroddiad hwn am y tro cyntaf yn ceisio canfod unrhyw wersi y gallai ymgyrchoedd y dyfodol eu dysgu ac yn edrych ar oblygiadau Ymgyrch Pallial i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal heddiw.

Elfen allweddol o'r gwaith hwn fydd clywed lleisiau goroeswyr ac adfyfrio ar eu barn nhw.

Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2012, sefydlwyd ymchwiliad annibynnol i edrych ar honiadau penodol o gam-drin plant yn y gorffennol yng ngogledd Cymru. Gofynnodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i Keith Bristow, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, arwain Ymgyrch Pallial. Daeth Mr Bristow yn 'Gomander Aur' gan gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol, cyfranoledd ac unplygrwydd yr ymchwiliad.

Er mwyn cynorthwyo i wireddu ei fwriadau strategol, gwahoddodd y Comander Aur unigolion ag arbenigedd proffesiynol mewn meysydd penodol i eistedd fel aelodau a chyfrannu at fusnes Grŵp Cydlynus Strategol. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, awdurdodau lleol, Ymgyrch Pallial, cynrychiolwyr cymunedol annibynnol, Cymorth i Ddiodeffwyr, NSPCC Cymru/Wales a Chomisiynydd Plant Cymru, wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod cyfnod yr ymchwiliad.

Yma mae aelodau'n trafod gwaddol gwaith y Grŵp Cydlynus Strategol fel rhan o Ymgyrch Pallial, gan adolygu pwyntiau dysgu o'r gwaith mae pob partner wedi'i gyfrannu i'r ymchwiliad a dynodi meysydd o ymarfer da ac argymhellion ar gyfer datblygu ymarfer.

Gwreiddiau Ymgyrch Pallial a'r Grŵp Cydlyn Strategol

Ar 2 Tachwedd 2012, ar raglen materion cyfoes y BBC, Newsnight, darlledwyd cyfweiliad gyda Mr Steven Messham, oedd yn cynnwys honiadau ganddo iddo gael ei gam-drin pan oedd yn blentyn yn system gofal gogledd Cymru a bod Ymchwiliad Waterhouse wedi methu â datgelu cwmpas llawn y cam-drin yn y 1970au a'r 1980au.

Yn dilyn y darllediad a'r diddordeb dilynol gan y cyhoedd, dechreuodd Comisiynydd Plant Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, yr NSPCC, y GIG, y Ganolfan Cam-fanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) a gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill dderbyn cwynion niferus yn ymwneud â cham-drin plant oedd wedi digwydd yn y gorffennol yn system gofal gogledd Cymru.

Crynhodd yr Ysgrifennydd Cartref, Theresa May AS, y digwyddiadau hyn mewn datganiad i'r Tŷ Cyffredin ar 6 Tachwedd 2012:

"Yn 1991, cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru ymchwiliad i honiadau fod plant mewn cartrefi oedd yn cael eu rheoli a'u goruchwyllo gan Gyngor Sir Clwyd drwy gydol y 1970au a'r 1980au yn cael eu cam-drin yn rhywiol ac yn gorfforol. Canlyniad ymchwiliad yr heddlu oedd wyth erlyniad a saith euogfarn i gyn-weithwyr achos ... ni chafodd adroddiad a luniwyd gan ymchwiliad Cyngor Clwyd ei hun ei gyhoeddi am fod llawer o'i gynnwys yn cael ei ystyried gan gyfreithwyr yn ddifennol.

Yn 1995, penododd Ysgrifennydd Cymru ar y pryd ... Gwnsler y Frenhines i edrych ar yr holl ddogfennau perthnasol ac argymell a ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus. Yr argymhelliad oedd na ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus ond y dylid archwilio gwaith cartrefi gofal preifat a'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghynghorau Gwynedd a Chlwyd.

Canfu'r gwaith hwn nid yn unig bod diffygion yn y modd yr oedd plant agored i niwed yn cael eu diogelu, ond bod y diffygion hyn wedi parhau hyd yn oed ar ôl ymchwiliad yr heddlu a'r erlyniadau dilynol. Yn 1996... gwahoddodd Ysgrifennydd Cymru Syr Ronald Waterhouse i arwain ymchwiliad i gam-drin plant mewn gofal yn ardaloedd Cynghorau Gwynedd a Chlwyd.

Yn 2000, cyflwynodd adroddiad yr ymchwiliad 'Ar Goll mewn Gofal' 72 o argymhellion ar gyfer newidiadau i'r ffordd roedd plant mewn gofal yn cael eu diogelu gan gynghorau, y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ... Ddydd Gwener ddiwethaf, honnodd gŵr oedd wedi dioddef cam-drin rhywiol yn un o'r cartrefi a enwir yn yr adroddiad – Mr Steve Messham – nad oedd yr Ymchwiliad wedi edrych ar gam-drin y tu allan i'r cartrefi gofal, ac ailgyflwynodd honiadau yn erbyn yr heddlu a nifer o unigolion."

Gofynnodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i Keith Bristow, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, arwain, cyfarwyddo a rheoli'r ymchwiliad a hwyluso'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol i'w gynnal.

Roedd cylch gorchwyl Ymgyrch Pallial fel a ganlyn:

Cam 1: Edrych ar honiadau penodol a wnaed yn ddiweddar ynghylch cam-drin hanesyddol yn y system gofal yng ngogledd Cymru:

- i. Asesu unrhyw wybodaeth a gafwyd yn ddiweddar mewn perthynas â honiadau o gam-drin
- ii. Adolygu ymchwiliadau hanesyddol yr heddlu i'r cyfryw faterion
- iii. Yng ngoleuni'r uchod, llunio adroddiad cychwynnol i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, gyda chopi i'r Ysgrifennydd Gwladol, erbyn diwedd mis Ebrill 2013, yn nodi a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu dilynol a chyfeiriad pellach y cylch gorchwyl.

Cam 2: Os canfyddir bod angen, ymchwilio i'r honiadau hynny a lle bo angen, gweithredu'n briodol.

Ar 29 Ebrill 2013, gofynnodd Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, i Keith Bristow barhau ag ymchwiliad annibynnol i honiadau diweddar o gam-drin plant yn y gorffennol. Mae cyfanswm o 35 o bobl (ffigur cywir ar 1 Rhagfyr 2014) bellach wedi'u harestio neu eu cyfweld dan rybudd gan swyddogion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol*. O'r rhain disgwylir i gyfanswm o 12 o bobl wynebu achos yn 2015, mae 13 o bobl (gan gynnwys John Allen a ddedfrydwyd i garchar am oes ar 1 Rhagfyr 2014) wedi'u cyhuddo ac mae'r 22 sy'n weddill ar fechniaeth tra bo'r ymchwiliadau'n parhau.

Mae'r nifer o bobl sy'n dod ymlaen gyda honiadau o gam-drin yn y gorffennol o fewn system gofal gogledd Cymru yn parhau i gynyddu. Hyd at 1 Rhagfyr 2014, roedd cyfanswm o 287 o bobl wedi hysbysu Ymgyrch Pallial am un neu ragor o gyhuddiadau.

Er mwyn cynorthwyo â chyflawni bwriadau strategol Ymgyrch Pallial, gwahoddodd Keith Bristow, fel Comander Aur, unigolion ag arbenigedd proffesiynol mewn meysydd penodol i eistedd fel aelodau a chyfrannu at fusnes Grŵp Cydlynu Strategol. Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp Cydlynu Strategol fel a ganlyn:

Nod: Cynorthwyo'r Comander Aur i gyflenwi ymateb ymchwiliadol effeithiol drwy ddarparu cymorth, cyngor a dadansoddiad.

Lle bo'n briodol, bydd Aelodau'n:

- Cytuno i weithredu ar sail gydweithredol gan ddangos sensitifrwydd i farn pobl eraill;
- Cyfrannu'n weithredol at fusnes y Grŵp Cydlynu Strategol
- Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol
- Derbynn cyfrifoldeb am reoli strategaethau thematig
- Dynodi ffactorau critigol ynghyd â datrysiadau posibl, a fydd yn gwaredu, lliniaru neu reoli risgiau posibl
- Llywio a chynorthwyo'r adolygiad thematig / dadansoddiad o strategaethau gweithrediadol.

* Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn asiantaeth gorfodir gyfraith sydd â swyddogion, yn hytrach na bod yn heddlu gyda swyddogion heddlu.

Dysgu'r gwersi: Persbectif y Goroeswyr

Elfen allweddol wrth ddysgu gwersi Ymgyrch Pallial yw clywed gan oroeswyr sydd wedi cael profiad uniongyrchol o ymgysylltu â'r broses. I'r perwyl hwnnw, siaradodd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, â phedwar o bobl a gysylltodd ag Ymgyrch Pallial ac a aeth drwy'r broses gyfan, o'r cyswllt cyntaf, cael eu cyfsweld, derbyn cymorth a rhoi tystiolaeth yn y llys. Er efallai nad yw hyn yn cynnig darlun gwbl gynrychioliadol gan y goroeswyr, mae gwranddo a gweithredu ar brofiad yr oedolion hyn sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol a chorfforol fel plant yn cynnig cyngor gwerthfawr ac mae eu profiad o ymgysylltu ag Ymgyrch Pallial yn cynnwys negeseuon cryf i unrhyw un sy'n cynllunio neu sy'n cynnal ymchwiliadau o'r fath.

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar 13 o gwestiynau a baratowyd o flaen llaw ac oedd yn siapiao'r cyfweiliadau. Cysylltodd swyddogion Ymgyrch Pallial yn gyntaf â'r pedwar unigolyn a gytunodd i siarad, a chyflwynwyd y cwestiynau iddyn nhw o flaen llaw:

1. Sut y daethoch chi i wybod am Ymgyrch Pallial a beth oedd y symbyliad i chi gysylltu â nhw?
2. Beth oeddech chi'n disgwyl fyddai'n digwydd pan gysylltoch chi ag Ymgyrch Pallial?
3. Beth ddigwyddodd mewn gwirionedd pan gysylltoch chi?
4. Sut oeddech chi'n teimlo i'r heddlu ymdrin â'ch achos?
5. Oeddech chi'n teimlo eich bod yn cael cymorth yn ystod y broses?
6. Os felly, pwy oedd yn rhoi'r cymorth, a beth oedd y cymorth hwn?
7. Os nad oeddech chi'n teimlo eich bod wedi derbyn cymorth, pa gymorth fyddai wedi helpu i wneud y broses yn haws i chi?
8. Ydych chi'n dal i dderbyn unrhyw gymorth parhaus?
9. Oeddech chi'n teimlo bod pobl yn gwranddo arnoch chi yn ystod y broses?
10. Oedd pobl yn eich hysbysu chi am gynnydd a'r camau nesaf?
11. Beth oedd eich profiad chi o'r achos llys?
12. Beth oedd y prif rwystredigaethau i chi, os o gwbl, yn ystod y broses?
13. Pe bai rhywun yn gorfod mynd drwy'r un broses â chi, pa welliannau fyddai'n ei gwneud yn haws i oroeswyr?

Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn agored, gonest a phwyllog. Ymddangosodd rhai themâu allweddol ac mae'r hyn sy'n dilyn yn grynodedb o'r materion a nodwyd. Cytunwyd o flaen llaw y byddai unrhyw ddyfyniadau a ddefnyddiwyd yn ddiennw.

Y Symbyliad i gysylltu ag Ymgyrch Pallial

Roedd adroddiadau'r cyfryngau darlledu am fodolaeth Ymgyrch Pallial yn symbyliad i bobl gysylltu. Soniodd rhai eu bod yn gyndyn i wneud hynny yn y lle cyntaf ar ôl cael profiad o gyswllt blaenorol gyda'r heddlu oedd yn negyddol. Roedd rhai'n ymwybodol o drafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol oedd i raddau helaeth yn amau a fyddai Ymgyrch Pallial yn llwyddo'n well nag unrhyw beth oedd wedi mynd o'i flaen. Y prif symbyliad, er gwaethaf unrhyw amheuan, oedd y gobaith y byddai cyfiawnder yn trechu unwaith ac am byth ac y byddai'r heddlu'n driv i'r uchelgais a fynegwyd ganddynt eu bod am ddilyn pob trywydd wrth ymchwilio.

Mewn un achos roedd goroeswr am fod yn siŵr fod Ymgyrch Pallial yn gwybod am y gŵyn roedd wedi'i chyflwyno'n flaenorol. Soniodd un arall iddo siarad am y tro cyntaf am yr hyn oedd wedi digwydd yn y gobaith y byddai'n gallu helpu ac y byddai gwersi'n cael eu dysgu. Tra bo un arall yn dweud ei fod eisoes yn cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol i oroesi cam-drin ond *"doedden nhw ddim yn deall y goblygiadau na'r raddfa lawn a dyna pam roeddwn i am siarad â'r heddlu."*

Dywedodd un goroeswr oedd wedi cael profiad o ymchwiliad blaenorol: *"Roedd fy nisgwyliadau'n gyfyngedig gan fy mod i'n teimlo y gallai'r tebygolrwydd o ail-erlyniad fod yn heriol. Serch hynny fe gyflwynais i'r gŵyn bellach oherwydd fy mod i'n teimlo ei fod yn bwysig bod cynifer o dystion â phosib yn dod ymlaen i gefnogi ymchwil yr heddlu."* Dywedodd yr un person nad oedd ganddo unrhyw ddisgwyliad gwirioneddol o Ymgyrch Pallial a'i fod yn ei ystyried yn *"syfrdanol eu bod wedi cyflawni achos llys ac euogfarn a hoffwn ddiolch i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron am hynny."* Dywedodd un arall *"Rwyf i am ddiolch i Pallial am wrando arnaf i o ddifri."*

Cyfweliadau gyda Swyddogion Ymgyrch Pallial

Roedd y galwadau ffôn cyntaf i swyddogion a'r ffordd roedden nhw'n gwrando ar yr adeg honno, yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfweliadau ac yn cymryd eu hamser yn ystod y sgysiau hynny, ar y cyfan yn gyswllt cyntaf cadarnhaol.

Nid oedd derbynriad da i gyswllt ebost oedd yn rhoi ymateb awtomatig, ynghyd â datganiad a dolenni at wasanaethau cymorth emosiynol. Canfuwyd fod rhywfaint o'r wybodaeth ar y rhestr o gyrff cymorth wedi dyddio ac roedd hynny'n peri gofid.

Ar y cam cyfweliad â'r heddlu dywedodd goroeswyr eu bod yn teimlo bod swyddogion yn sensitif i'w hanghenion. Cyfeiriodd un person at y cyswllt a gafodd â swyddog heddlu oedd yn agos ato'n ddaearyddol ac a'i hebryngodd i'r cyfweliad oedd yn cael ei recordio ar fideo: *"Roeddwn i'n nerfus i ddechrau ond roedd yn gymorth cael rhywun i siarad â fi am yr hyn oedd yn mynd i ddiwydd, a chymryd ei amser gyda fi. Roeddwn yn teimlo ei fod yn sensitif i fy anghenion i."* Dywedodd un arall *"Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn cael fy holi'n galed. Doedd y profiad ddim yn frawychus o gwbl. Roedden nhw'n dda iawn gan adael i fi siarad ar y cyflymder roeddwn i'n ei ddewis."*

Roedd yr anghenion cymorth yn y cyfweliadau'n cynnwys un dyn a ofynnodd am gael ei gyfwrdd gan swyddog benywaidd, *"Roeddwn i'n ei chael yn haws siarad â benyw am y cam-drin roeddwn i wedi'i dderbyn gan ddyn. Roedd siarad â menyw'n gweddu i mi ac roedden nhw'n deall hynny."* Cafodd un arall ei gyfwrdd gan swyddogion heddlu lleol *"ar ran Pallial."*

Dywedodd rhai o'r goroeswyr eu bod yn teimlo bod y swyddogion yn drylwyr iawn. Defnyddiwyd geiriau fel amyneddgar, ystyrllon, diogel, trugarog a sensitif. Dywedodd un fod swyddogion yn barod i siarad am emosiynau. *"Roedden nhw'n ystyried fy emosiynau, ac yn rhoi amser i mi ddod ataf fy hun. Doeddwn i ddim yn teimlo pwysau. Rhoddon nhw'r holl amser oedd ei angen arnaf i ddweud yr hyn oeddwn i am ei ddweud."*

Soniodd un am gyflymder yr ymateb pan ffoniodd. *"Daethon nhw i fy nghartref i ar unwaith a mynd â fi am gyfweliad a wedyn dod â fi'n ôl adref. Roeddwn i'n gwybod eu bod yn fy nghymryd o ddifrif ac roedd hynny'n deimlad da a bod yn onest."* Dywedodd un arall ei fod wedi disgwyl yr un peth ag y profodd mewn cyfweliadau blaenorol gan yr heddlu *"ond roedd hwn yn wahanol, roedd yn dda ac roedden nhw'n gwrando arnaf i. Roedd yn eitha' brawychus, peidiwch â chamddeall, rwy'n cael trafferth gydag awdurdod ond y tro hwn roeddwn i'n gallu dweud wrthyn nhw am y prif bethau ddiwyddodd i fi."*

Cafodd un brofiad llai cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys cais i lofnodi ffurflenni i ryddhau cofnodion meddygol heb gael gwybod beth oedd fyddai'n cael ei dynnu ohonyn nhw fel tystiolaeth. Roedd yn ystyried bod hyn yn *"ymyrryd â fy mhreifatrwydd ac roedd yng nghefn fy meddwl drwy'r amser. Beth oedden nhw'n ei wybod a sut oedden nhw'n mynd i'w ddefnyddio?"*

Mae'n amlwg iawn nad oedd rheswm gan y goroeswyr i amau fod ymchwiliad yr heddlu'n cael ei gynnal ar safon broffesiynol uchel. Gwelwyd bod yr heddlu'n canolbwyntio'n benodol ar gasglu tystiolaeth. Fodd bynnag roedd un person yn teimlo ei fod yn *"cael fy fframio fel twpsyn! Cog yn olwyn cyfiawnder. Mae gogwydd anymwybodol yng nghanol hyn i gyd."* Roedd y lleill serch hynny wedi cael profiad llawer mwy cadarnhaol, gydag un yn dweud *"Maen nhw wedi bod yn wych ac wedi gweithio'n galed i gadw cysylltiad. Dyw hi ddim yn hawdd i mi ymddiried, ond allen nhw ddim bod wedi gwneud mwy."*

Perthynas o Ymddiriedaeth

Siaradodd y rheini oedd wedi bod drwy brofiad blaenorol o gyfweiliadau heddlu nad oedd yn gysylltiedig ag Ymgyrch Pallial, oedd ar y cyfan yn negyddol, hefyd am bwysigrwydd ymddiriedaeth. Er bod rhai'n siarad yn gadarnhaol am adeiladu perthynas o ymddiriedaeth gyda swyddogion Ymgyrch Pallial, oedd yn cynnwys yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, nid dyna brofiad un person. Roedd cynnwys swyddogion heddlu o ardal leol y goroeswyr yn helpu'r unigolion oedd yn derbyn cymorth. *"Roedd yn teimlo bod rhywun yn agos os oedd eu hangen arnaf i."*

Yn y pen draw roedd rhai'n teimlo bod rhaid iddyn nhw ymddiried y byddai'r heddlu'n cadw at eu gair a sicrhau euogfarn. *"Ac a bod yn deg maen nhw wedi cyflawni'r canlyniad hwnnw."* Roedd yn glir i rai o'r goroeswyr eu bod yn cael gwrandawriad ond roedden nhw hefyd yn deall pam nad oedd swyddogion *"yn datgelu'r hyn roedden nhw'n ei feddwl"* yn ystod y cyfweiliadau. Dywedodd un ei fod yn teimlo bod pethau'n *"mynd i gael eu sortio nawr. Dim Waterhouse arall yw hwn. Mae'n ddifrifol."*

Dywedodd un goroeswr nad oedd swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol wedi sefydlu perthynas o ymddiriedaeth. Cyfeiriodd at ei ddisgwyliad y byddai'r tîm o swyddogion wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn â sut i drin oedolion oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant a'r sawl oedd yn gadael gofal. Fel goroeswr, mae cael eich argyhoeddi eich bod yn cael eich trin yn briodol gan swyddogion sydd â phrofiad priodol *"... yn ychwanegu dimensiwn cymhleth sy'n ymwneud â hunaniaeth ac ymddiriedaeth ... wrth i mi golli hyder yn nealltwriaeth Pallial daeth yn amlwg yn fy marn i fy mod i, drwy herio'r swyddogion am eu hymarferion, yn cael fy ngweld yn anodd. Roeddwn i'n teimlo pe bawn i'n holi cwestiynau neu'n herio unrhyw beth fy mod yn cael fy nhrin fel dioddefwr anniolchgar ac i bob pwrpas yn cael fy ngyrru at ddistawrwydd."* Dywedodd yr un goroeswr *"Roedd hyn yn golygu bod fy mherthynas ar y gorau'n gwrtais. Roedd hyn yn gwneud y broses gyfan yn llawer mwy heriol gan arwain ar adegau at awydd i ladd fy hun."*

Soniodd pob un o'r goroeswyr am bwysigrwydd adeiladu ymddiriedaeth a bod *"teimlo mor gyfforddus â phosibl mewn cyfnodau anodd yn bwysig iawn."*

Cwmsela a Chymorth

Soniodd pob un o'r goroeswyr am bwysigrwydd cymorth da. Roedd hyn ar gael mewn sawl ffordd a dywedodd pob un o'r goroeswyr eu bod yn gwybod beth fyddai'n gweithio iddyn nhw.

Er bod pob un o'r goroeswyr wedi cael cyswllt personol ac atgyfeiriad at gymorth pellach, aeth un goroeswr i weld ei feddyg teulu lleol a chafodd gyllid drwy'r *"cynllun hunangyfeirio"* i gysylltu â seicolegydd clinigol a gwasanaeth cwmsela. Roedd yn bwysig fod Ymgyrch Pallial yn cydnabod y cymorth hwnnw gan gan holi a oedd yn cael y cymorth cywir. Ar un adeg *"cysylltodd Cymorth i Ddiodefwyr â fi, ond esboniais fy mod yn derbyn cymorth."*

Dyweddodd un arall na ofynnodd am gwmsela ar y dechrau ond *"Roedden nhw (gweithiwr cymdeithasol Pallial) yn ffonio'n gyson i ofyn a oeddwn i'n iawn. Cysyllton nhw â gwasanaeth cwmsela lleol i fi. Roedd hynny'n help ac roedd yn dda."* Roedd un arall, gyda chyllid gan y gwasanaethau cymdeithasol lleol, eisoes wedi bod yn gweld cwmselwr am dair blynedd ac mae'r cymorth hwnnw'n parhau.

Roedd cydnabyddiaeth gan rai o'r goroeswyr fod y cyfnod yn union ar ôl y cyfweliad ffurfiol gyda'r heddlu yn amser anodd. Dyma'r cyfnod pan fydd y cof am y gamdriniaeth a'r effaith emosiynol yn gallu bod ar ei ddwysaf. Dywedodd un *"Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cwmpo'n ddarnau ac roedd fy nheulu'n bryderus iawn"*. Mae cydnabod y gallai fod angen cymorth ar unigolion ac aelodau o'r teulu yn ystod y cyfnod hwn yn bwysig. Y peth anoddaf weithiau oedd delio ag asiantaethau *"sydd i fod i'ch gwneud chi deimlo'n ddiogel"*. Mae cymorth da'n digwydd pan fydd pobl broffesiynol *"yn eich gweld chi fel person ac mae hynny'n golygu siarad â chi ar yr un lefel, eich trin chi â pharch a gwrando ac ymateb fel unigolyn i unigolyn arall."*

I un goroeswr, ar ôl trafod gyda gweithwyr cymdeithasol Pallial, *"roeddwn i'n teimlo nad oedd gen i unman i fynd."* Mae wedi gwneud ei drefniadau ei hun i gael cwmsela ac wedi ei gyllido ei hun. Roedd yr holl awgrymiadau a wnaed iddo gan Pallial yn rhy leol ac roedd yn eu hadnabod yn rhy dda. *"Roeddwn i'n anghyfforddus â'r syniad o fynd at bobl oedd yn fy adnabod i"*. Chafodd hyn ddim ei gydnabod na'i drafod erioed gan swyddogion Pallial. Fel yn achos rhai eraill, mae'n derbyn cwmsela o hyd, ond er iddo gael ei hysbysu y byddai gweithiwr cymdeithasol yn galw i weld ei fod yn iawn, ar adeg y cyfweliad hwn, doedd hynny ddim wedi digwydd eto.

Dyweddod yr un goroeswr fod y broses yn gwneud iddo deimlo fel pe bai'n chwythu'r chwiban a chysylltodd â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru am ei anghenion cymorth seicolegol. *"Hyn dim ond ar ôl taro wal frics."* Roedd wedi gwneud rhai awgrymiadau i weithwyr cymdeithasol Pallial am *"gymorth cofleidiol"* a sut y gellid cynorthwyo pobl eraill. Fe'i gwahoddwyd i gyflwyno ei syniadau a gwnaeth hynny ond nid yw wedi derbyn ymateb eto. Ar un adeg holodd yr un goroeswr a allai gysylltu â Grŵp Cydlyn Strategol Pallial i fynegi ei bryderon a dywedwyd wrtho am *"fynd i ddarllen yr adroddiad interim."* Esboniodd fod rheswm pam fod goroeswyr yn mynd yn ddig ac yn boenus, a bod hyn yn aml yn cael ei sbarduno gan weithwyr proffesiynol sy'n defnyddio *"ymddygiad tawelu"*. Eglurodd fod swyddogion heddlu da yn ceisio cyfoethogi'r profiad o gyflwyno tystiolaeth, ond roedd hefyd yn teimlo ei fod *"mewn gwirionedd yn hurt fy mod wedi gorfod dod at y Comisiynydd."*

I rai goroeswyr roedd rhan o'r penderfyniad ynglŷn â chysylltu ag Ymgyrch Pallial yn codi *"pan oedd, ac mae'n dal i fod, dim dianc yn y cyfryngau rhag cam-drin plant. O Saville i Rotherham a chyda Pallial does dim pall ar y peth. Bob tro ceir adroddiad mae'n dod yn ôl unwaith eto ac mae'n rhaid i mi ddelio â'r peth, drosodd a throsodd. Dyw e byth yn dod i ben."*

Does dim modd gor-bwysleisio pwysigrwydd partneriaid, teulu a chyfeillion, ond mae cwnsela hefyd yn hollbwysig ar gyfer goroesi realiti bywyd ac ymdopi â'r cam-drin o ddydd i ddydd.

Soniodd rhai am bwysigrwydd gwarchod eu plant eu hunain rhag goblygiadau byw gyda rhiant y gellid ei adnabod fel un a ddiodefodd gamdriniaeth pan oedd yn blentyn. Mae cadw enwau'n gyfrinachol cyhyd a bo'n bosibl yn bwysig nid yn unig oherwydd eu gwaith a'u cysylltiadau cymdeithasol eu hunain ond hefyd i warchod aelodau o'r teulu. Soniodd un fod ei blant yn teimlo embaras, yn ofidus ac yn cael eu bwllian a gofynnodd i swyddogion Pallial fod yn sensitif i hynny drwy beidio ag ymweld â'r tŷ. Roedd hyn yn rhywbeth oedd y swyddogion yn sensitif iddo a gwnaed trefniadau cyswllt amgen ar unwaith.

I un goroeswr, ceir teimlad cryf y byddai Eiriolwyr Trais Rhywiol wedi'u hyfforddi'n briodol, a allai gysylltu â'r goroeswr i gynorthwyo â'r asesiad proffesiynol o anghenion *"wedi helpu i adeiladu perthynas dryloyw o ymddiriedaeth."* Ar y sail honno gellid bod wedi cytuno ar gynllun gweithredu ar y cyd i gyllido'r cymorth emosiynol gan ddefnyddio gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau cwnsela arbenigol.

Nawr fod y broses cyfiawnder troseddol wedi dod i ben mae angen sicrhau bod y cymorth yn parhau i'r goroeswyr hyn. Soniodd un am ddychwelyd at y meddyg teulu ar ôl yr achos llys ac mae wedi cael presgripsiwn i'w helpu i gysgu. Hefyd mae ganddo anghenion cymorth cwnsela y mae'n falch i ddweud eu bod yn cael eu diwallu. Cadarnhaodd yr holl oroeswyr y cyfwelwyd â nhw fod ganddyn nhw drefniadau cwnsela neu eu bod yn gwybod bod *"y drws ar agor os oes angen rhagor o gymorth arnaf i."* Cyfeiriodd un arall at fod â *"... mwy o waith i'w wneud yn y Flwyddyn Newydd ac rwy'n teimlo'n barod ac yn agored i siarad rhagor."*

Soniodd goroeswyr am fod yn arbenigwyr o ran eu hanghenion cymorth eu hunain, *"Mae peidio â chael dim cymorth o gwbl yn annerbyniol ond mae gormod yn gallu bod yn llethol"*. Mae cael gweithwyr proffesiynol i gydnabod bod unigolion yn gallu helpu i ddynodi eu hanghenion eu hunain yn bwysig. *"Y cyfan sydd angen iddyn nhw (gweithwyr proffesiynol) ei wneud yw gwrando mwy."*

Cyfathrebu rhwng Pallial a Goroeswyr

Unwaith i'r goroeswr roi cyfweiliad i'r heddlu, ceir bwllch sydd angen reoli. *"Rydych chi'n cadw meddwl tybed beth sy'n digwydd"* dywedodd un, ac er eu bod i gyd yn cydnabod bod Tîm Pallial yn ymdrin â sefyllfa gymhleth oedd yn fwy na nhw fel unigolion, roedd yn anodd ymdopi â'r pryder, gyda'r meddwl yn troi i dybied beth fyddai'n digwydd nesaf. Doedd rhai ddim yn ofni gofyn beth oedd yn digwydd. Roedd rhai'n teimlo'n rhwystredig ac yn ddi-rym tra bo eraill yn teimlo bod y cyswllt yn briodol ac yn gymorth iddyn nhw.

Dywedodd y goroeswyr eu bod hefyd wedi derbyn galwadau ffôn o dro i dro gan swyddogion Pallial a bod hyn yn eu helpu. Ond dywedodd un *"Roedd fy ngreddf yn dweud wrthyf fod y swyddogion ar y cyfan yn ei weld yn orchwyl a roddwyd iddyn nhw i'w wneud heb ddeall pwysigrwydd nid yn unig yr wybodaeth, ond yr ymdeimlad o barch sy'n codi drwy rannu gyda charedigrwydd a dealltwriaeth."* Aeth yn ei flaen i ddweud fod hyn yn *"rhodd bwerus i gynorthwyo adferiad y goroeswyr os caiff ei wneud yn dda, ond os nad yw, mae'n achosi niwed."*

Roedd pob un o'r goroeswyr yn croesawu cyswllt cyn i Pallial ryddhau gwybodaeth i'r cyfryngau neu pan oedden nhw'n gwybod bod sylw sylweddol yn debygol o fod yn y cyfryngau darlledu.

Cyfryngau Cymdeithasol a Darlledu

Er bod y mwyafrif yn ymwybodol o amrywiol fannau ar y cyfryngau cymdeithasol oedd yn lleisio barn am Ymgyrch Pallial, neu faterion eraill yn ymwneud ag oedolion oedd wedi goroesi camdriniaeth yn blant, eu cyflwr meddwl eu hunain oedd yn llywio'r graddau roedden nhw eu hunain yn ymgysylltu. *"Gallwch ddewis edrych ar y stwff yna neu beidio, ond dwyf i ddim yn siŵr ydi e'n helpu. Mae angen i chi fod yn barod amdano oherwydd dyw e ddim yn gadael llonydd i chi, mae'n eich bachu chi."* Cyfeiriodd eraill at reoli eu hadferiad eu hunain a bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn niweidiol a phan gaiff pethau anghyfrifol eu dweud ar-lein, *"dwyf i ddim yn gallu delio â'u dicter a'u hemosiynau nhw, rwy'n ceisio delio â fy rhai fy hun."* Tra bod un arall yn sôn am gael cysur wrth rannu meddyliau ar y cyfryngau cymdeithasol *"Mae'n braf sylweddoli nad ydych chi ar eich pen eich hun. Mae ysgrifennu blog a siarad ar Twitter wedi bod yn gymorth mawr i mi."*

Roedd amrywiaeth i'w weld o ran profiad o gyfryngau darlledu a gwyllo adroddiadau am Ymgyrch Pallial. I rai, roedd adroddiadau cyfrifol yn help tra bo eraill yn ddiolchgar am gael clywed bod rhaglenni ar fin cael eu darlledu er mwyn iddyn nhw allu eu hanwybyddu. Dywedodd pawb ei fod yn anodd darllen, gwyllo neu wrando ar unrhyw adroddiadau am gam-drin plant heb deimlo ei fod yn eu *"hatgoffa'n barhaus"*. Dywedwyd bod cymorth eu teuluoedd yn beth da ar gyfer ymdopi gyda hyn a bod siarad amdano mewn sesiynau cwnsela yn help i ddod o hyd i ffyrdd gwahanol i reoli eu teimladau.

Soniodd rhai am dderbyn cyswllt digymell gan gyrrff cyfryngau darlledu. *"Maen nhw'n pysgota drwy'r amser. Maen nhw'n dweud y gallwn ni fod yn gwbl ddiennw ond mae angen iddyn nhw adael llonydd i ni."* Soniodd un ei fod yn anwybyddu cynigion o arian i siarad ond roedd peth dicter fod pethau fel hyn yn digwydd. *"Mae'n rhaid i chi ei reoli. Dweud wrthyn nhw am fynd i'r diawl. Ond dyw eich targedu chi pan rydych chi'n teimlo'n fregus ddim yn helpu. Gallai rhai pobl benderfynu derbyn yr arian a dyw hynny ddim yn iawn. Maen nhw (newyddiadurwyr) yn cerdded drosoch chi."*

Cafodd un profiad o'r cyfryngau darlledu ganmoliaeth, *"Roedd e (y newyddiadurwr) yn holi ond mewn ffordd dda. Gwrandawodd arnaf i cyn y cyfweiliad a chadwodd at ei air pan ddywedais i fod rhai pethau nad oeddwn i'n dymuno eu trafod."*

Dywedodd un goroeswr nad oedd hyd yn oed yn sylweddoli bod cyfyngiadau ar ohebu tan i'r Barnwr ddweud wrtho yn y llys. Byddai wedi hoffi gwybod hynny ynghynt oherwydd mae wedi pryderu'n barhaus am gyswllt gan y cyfryngau. Cyflwynodd awgrym ar gyfer gwella oedd yn golygu gosod cyfyngiadau parhaus ar y cyfryngau i'w hatal rhag cysylltu â goroeswyr am o leiaf chwe wythnos ar ôl achos llys oni bai bod y goroeswr yn dymuno gwneud cyswllt. Teimlai hefyd y gallai Ymgyrch Pallial fod wedi gweithredu fel asiant i'r goroeswyr.

Y Profiad yn y Llys

Mae'n ddyletswydd ar dîm yr ymchwiliad i gynnig cyfle i oesoedwyr ddarllen eu datganiad i'r Llys yn bersonol. Roedd gan ddau o'r goroeswyr a holwyd ar gyfer yr adroddiad hwn brofiad yn y llys mewn perthynas ag Ymgyrch Pallial. Dywedodd y ddau fod popeth yn broffesiynol iawn yn y llys. Ond soniodd y ddau am dderbyn ychydig iawn o wybodaeth o flaen llaw gan godi rhai materion ymarferol. Doedd hi ddim yn glir o flaen llaw, er enghraifft, pa drefniadau gwesty a theithio oedd yn weithredol. Cyfeiriodd un at gymryd wythnos yn rhydd o'r gwaith, gwneud trefniadau gofal plant, a gorfod teithio'n ôl ar gyfer y ddedfryd.

O ran y treuliau, y teimlad oedd bod y ffurflen yn gymhleth *"ac roedd rhaid i fi ofyn amdani. Rwyf i'n teimlo fy mod siŵr o fod allan o boced."* Dywedodd un goroeswr y byddai wedi bod yn anodd i unrhyw un oedd ag anawsterau ariannol neu na allai gwrdd â'r costau o flaen llaw fynychu'r llys.

Roedd un goroeswr yn canmol y gwesty a drefnwyd, ond roedd rhaid iddo uwchraddio o ystafell sengl i un dwbl er mwyn i'w wraig allu bod yno i'w gefnogi. Roedd rhaid iddyn nhw aros dwy noson. Mae'n cymryd bod y gwesty wedi'i drefnu gan yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol neu swyddogion heddlu Ymgyrch Pallial oherwydd roedd y gwestywr *"...yn cadw gofyn i ni oedden ni ar gyrch arbennig. Gallai hyn, er ei fod yn eithaf doniol, fod wedi achosi straen."* Roedd y gwesty'n eithaf diarffordd ond roedd yn lân ac yn gyfeillgar. Nid oedd yn cynnig cinio felly heb gar gallai hynny fod wedi bod yn anodd.

I baratoi at ymddangos yn y llys dywedodd y ddau mai ychydig iawn o wybodaeth ymarferol a gafwyd ac y bydden nhw wedi hoffi cael rhywbeth a fyddai'n esbonio prosesau'r llys, cynllun yr adeilad a beth i'w ddisgwyl. *"Mae hyn yn swnio'n eithaf sylfaenol ond mae unrhyw beth sy'n lleihau pryder yn gymorth."*

Dywedodd y ddau nad oedd adeilad y llys yn ddelfrydol a bod ganddyn nhw bryderon am sicrhau eu bod yn aros yn ddiennw y tu allan i'r llys. Rhoddwyd enghreifftiau o enwau'n cael eu galw yn yr ardal aros, gyda hebryngwyr a gwirfoddolwyr cymorth i dystion yn cario rhestrau o enwau y gellid eu darllen yn rhwydd. Roedd y pethau hyn yn ychwanegu at straen y profiad yn y llys. Er enghraifft dywedodd un goroeswr, *"Pan oeddwn i'n aros i fynd i mewn i'r llys yn yr ystafell ochr, clywais i'r tyst oedd o fy mlaen i'n sgwrsio gyda'r heddlu y tu allan. Yna clywais i fy enw'n cael ei ddweud yn uchel gan y person cymorth i dystion wrth siarad â rhywun y tu allan i'r ystafell. Ar y pwynt hwnnw gwaeddodd y tyst arall 'ydy e yma, ble mae e?' Y peth nesaf oedd iddo fwy neu lai redeg i mewn i'r ystafell. Y tu ôl iddo roedd yn llusgo'r gweithiwr cymorth i dystion, oedd yn ceisio ei rwystro. Dim ond pan gyrhaeddodd swyddogion Pallial y cafodd ei hebrwng allan. Allech chi ddim dychmygu'r peth!"*

Yn y llys dywedodd un goroeswr ei fod wedi meddwl y byddai'n teimlo'n iawn wrth weld y sawl oedd yn cael ei gyhuddo yn y doc ond pan gyrhaeddodd yno a rhoi ei dystiolaeth roedd yn ddiolchgar nad oedd rhaid iddo wneud cyswllt llygaid. *"Roedd y sgrin yn dda ac roedd yn gwneud i mi ganolbwyntio ar y Barnwr. Roedd y Barnwr yn sensitif a gwnaeth i mi deimlo'n gyfforddus."* Aeth yn ei flaen i ddweud ar ôl rhoi tystiolaeth ei fod *"...wedi ymlâdd. Roedd yn ddramatig i fi ond roedd yn help i beidio â gorfod edrych arno."*

Roedd barn gymysg am y cymorth i dystion yn adeilad y llys. Dywedodd un goroeswr ei fod yn ddiolchgar am y cymorth, *"Treulion nhw amser gyda fi gan baratoi cinio i fi, siaradon nhw â fi ac roedd perthynas dda gyda ni, fe eisteddon nhw gyda fi wrth i mi wylïo'r fideo o fy nhystiolaeth fy hun ond yn bwysicaf roedden nhw'n dweud wrthyf i beth oedd yn digwydd wrth i mi aros."* Y teimlad oedd efallai nad oedd yr adeilad yn ddelfrydol ond bod pobl yn gwneud eu gorau i wneud y profiad mor hawdd â phosibl.

Roedd y goroeswr arall yn teimlo mai *"y gwasanaeth cymorth i dystion oedd un o'r profiadau mwyaf anrymusol i mi ei weld erioed. Ni ofynnodd neb i mi ar unrhyw adeg a oeddwn i'n dymuno iddyn nhw fy nghynorthwyo."* Aeth yn ei flaen i ddisgrifio nad oedd y gwirfoddolwr cymorth yn gallu gweld y gallai fod yn hapusach ar ei ben ei hun. *"Gallaf i ond ei ddisgrifio fel agwedd 'paid â phoeni' gyda'r gweithiwr yn ceisio tynnu fy sylw gyda straeon am ei fywyd ei hun. Roedd yn teimlo fel pe bawn i'n ei gwmsela fe."* Fel goroeswr cam-drin rhywiol y peth olaf oedd yn ei ddymuno oedd cymorth gan berson *"a ddechreuodd siarad am fenywod oedd wedi profi cam-drin domestig ac yntau'n methu deall pam nad oedden nhw'n gadael. Dim gobaith felly y byddai hwn yn deall plentyn oedd wedi profi cam-drin rhywiol gwrywaidd neu fenywaidd!"*

Roedd y ddau oroeswr yn teimlo bod y barnwr, swyddogion Ymgyrch Pallial, yr amddiffyn a Gwasanaeth Erllyn y Goron yn siarad â nhw fel oedolion ac â pharch.

Terfynu'r Broses

Dywedodd dau o'r goroeswyr nad oedden nhw wedi derbyn llythyr terfynu yn dilyn dedfryd y llys. *"Does neb wedi cysylltu â fi, dim llythyr i ddweud fod popeth ar ben."* Roedd yr achos llys yn un cymhleth gyda llawer o gyhuddiadau a byddai wedi bod o gymorth iddyn nhw gael llythyr yn egluro'r cyhuddiadau i gyd a sut roedd y ddedfryd yn delio â phob un ohonyn nhw. Dywedodd un *"Dwyf i ddim wir yn deall y manylion. Rwyf i'n gwybod ei fod wedi cael dedfryd oes, ond rwyf i am wybod y manylion. Mae'n bwysig iawn i mi wybod hyn. Rwyf i'n iawn ond yn teimlo'n ddryslyd am fy sefyllfa bersonol."*

Dywedodd un goroeswr fod dod i delerau â'r achos llys a ddaeth â phopeth i derfyn yn *"... afreal, mae'n dal i suddo i mewn."* Siaradodd am ymdeimlad o siom ar ôl y digwyddiad a dywedodd *"Mae wedi cymryd 42 o flynyddoedd i ddod i'r pwynt hwn. Dwyf i ddim yn teimlo fel ergydio'r awyr yn fuddugoliaethus."* Mae ei deulu a'i blant yn ei gadw'n brysur, ac mae *"eisiau ailgydio mewn pethau a byw fy mywyd."*

Dywedwyd wrth ddau o'r goroeswyr fod yr un a fu'n eu cam-drin wedi marw. Dywedodd un nad oedd ganddo deimladau cryf am hynny *"Wnes i ddim gwneud hyn i ddial ar neb. Roeddwn i am ddod i delerau â'r hyn a ddigwyddodd."* Dywedodd ei fod yn falch fod ei stori wedi cael ei chlywed er mwyn i bethau allu newid i blant heddiw. Un o'r gwersi pwysig iddo oedd nad oedd wedi eisïau dweud wrth ei fam a'i dad pan oedd yn cael ei gam-drin. Pan oedd y cam-drin yn digwydd *"Roeddwn i'n teimlo na allwn i siarad â neb. Roeddwn i yn eu dwylo nhw. Roeddwn i'n ofnus ac yn teimlo'n ansicr. Doedd neb y gallwn i siarad â nhw ar y pryd."*

Adleisiodd y goroeswr arall y pwyntiau hyn gan ddweud *“Doeddwn i ddim yn blentyn da ond doeddwn i ddim yn haeddu'r hyn wnaethon nhw i fi. Doedd neb yn gwrando arna i ac rwyf i'n dal i gael trafferth ag unrhyw un mewn awdurdod. Mae hynny wedi gwella erbyn hyn ond dyw hi ddim yn hawdd i fi o hyd.”* Aeth ymlaen i ddweud *“Y peth pwysig nawr yw bod plant sydd mewn gofal heddiw ac yn y dyfodol yn cael eu diogelu. Eu dyfodol nhw sy'n bwysig, eu gwarchod nhw a'u diogelu.”*

Ond dywedodd y ddau eu bod yn dymuno derbyn llythyr yn cadarnhau y byddai'r heddlu a Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi erlyn pe bai'r sawl a wnaeth y cam-drin yn dal yn fyw.

Strategaeth tystion Ymgyrch Pallial

I gynorthwyo tystion, rhoddodd y swyddogion strategaeth gadarn ar waith ar gyfer tystion. Roedd y canlynol ymhlith y mesurau:

- Teilwra mesurau arbennig mewn perthynas â gofynion pob tyst wrth roi tystiolaeth
- Ymweld â thystion cyn yr achos i'w galluogi i wyllo eu cyfweliadau fideo a thrawsgrifiadau
- Mynd â thystion i ardal ddiogel yn Llys y Goron, i aros i roi tystiolaeth i ffwrdd o'r ardal gyhoeddus. Roedd cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Tystion yno i'w hebrwng i'r Llys ac yn ôl
- Cyflwynodd y Prif Gwnsler ei hun i'r tystion cyn rhoi tystiolaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gyfforddus.
- Talwyd unrhyw gostau tystion yn gysylltiedig â mynychu'r llys gan dîm yr ymchwiliad.
- Archebwyd llety mewn gwesty a thalwyd y costau gan Wasanaeth Erllyn y Goron mewn ymgynghoriad â thîm yr ymchwiliad.
- Gwnaed galwadau dilynol gan y Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig i bob tyst i ymateb i unrhyw risgiau diogelu posibl.

Pwyntiau dysgu:

Nid yw'n fwriad gan yr adroddiad hwn i ddarparu dadansoddiad manwl o brofiad y goroeswyr yn seiliedig ar y pedwar cyfweiliad. Fodd bynnag mae rhai pwyntiau dysgu clir wedi ymddangos o'r profiad y mae'r goroeswyr wedi'i rannu. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cyswllt Cyntaf

Mae gwybodaeth gyhoeddus dda, wedi'i chynnwys mewn cynllun cyfathrebu cryf, yn sicrhau bod y goroeswyr yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud y cyswllt cyntaf.

Mae'r galwadau ffôn cyntaf rhwng swyddogion heddlu a goroeswyr yn bwysig ac yn gosod y tôn ar gyfer adeiladu perthynas barhaus o ymddiriedaeth.

Rhaid i negeseuon ebost cyswllt cyntaf sy'n derbyn ateb awtomatig gynnwys gwybodaeth gywir. Yn ddelfrydol dylai pob ebost dderbyn ateb yr un diwrnod ac yn sicr o fewn 24 awr gan swyddog sy'n ei enwi ei hun ac yn cynnig cyswllt ffôn.

Mae sefydlu pyrth adrodd effeithiol i oroeswyr gyflwyno cwynion cychwynnol yn cynnig yr ymateb proffesiynol cyntaf a'r sicrwydd mae llawer o oroeswyr yn ei geisio gan leihau'r tebygolrwydd y bydd goroeswyr yn cael eu colli. Mae asiantaethau cenedlaethol fel Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, NSPCC, CEOP, Cymorth i Ddiodefswyr a thîm yr ymchwiliad ei hun yn opsiynau da.

Y Cam Cyfweld

Pan fydd ymgyrch heddlu yn cael ei gynnal ledled y DU gall fod yn gymorth i oroeswyr dderbyn cefnogaeth gan swyddog heddlu lleol.

Ar y cam cyfweld ffurfiol mae'n bwysig deall pa gymorth sydd ei angen ar y goroeswr. Er enghraifft, sicrhau bod swyddogion heddlu gwrywaidd a benywaidd ar gael i gynnal cyfweliadau; gwneud trefniadau teithio priodol, caniatáu cefnogwyr i ddod gyda'r sawl sy'n cael eu cyfweld, holi am ofal plant a chyfrifoldebau gofalu a chaniatáu cymaint o amser ag sydd ei angen ar y goroeswr yn y cyfweliad i ddweud yr hyn mae am ei ddweud.

Adeiladu ymddiriedaeth

Mae adeiladu ymddiriedaeth rhwng goroeswyr a'r heddlu a'r fîm gwaith cymdeithasol yn hanfodol. Bod mor agored a gonest â phosibl o fewn cyfyngiadau cyfrinachedd ac unplygrwydd y broses. Mae goroeswyr yn croesawu cael eu trin â pharch pan fydd gweithwyr proffesiynol yn cysylltu ar lefel ddynol ac yn gwrando ac ymateb fel un unigolyn.

Os yw goroeswr yn herio'r heddlu a'r fîm gwaith cymdeithasol, neu os yw mewn perygl o gael ei ystyried yn anodd, gallai fod yn ddefnyddiol cael canolwr i gyfryngu os bydd angen.

Gallai cydlynu gyda'r darparwyr diogelu a gwaith monitro arall (e.e. cyfryngau cymdeithasol) amlygu risgiau penodol sy'n galw am ymateb penodol gan yr heddlu neu'n amlasiantaethol. O ganlyniad, mae cynlluniau rheoli unigol effeithiol i'r goroeswyr a'r sawl a amheuir yn hanfodol.

Gellid hefyd cynnal asesiad risg ar bob goroeswr, tyst ac unigolyn dan amheuaeth wrth i'r ymgyrch ddod i wybod amdany'n nhw. Roedd y cynlluniau rheoli risg yn aml yn cynnwys asiantaethau diogelu a heddluoedd yn yr ardal lle maen nhw'n byw erbyn hyn a dylai'r rhain gynnig eglurder o ran cyfrifoldebau'r gwahanol asiantaethau i gynorthwyo goroeswyr.

Cwmsela a Chymorth

O ganlyniad i'r effaith gadarnhaol sylweddol a gafodd y gweithiwr cymdeithasol dynodedig ar Ymgyrch Pallial, dylid ystyried penodi gweithiwr/gweithwyr cymdeithasol penodol i unrhyw dîm ymchwilio yn y dyfodol i'w cynorthwyo i ddeall materion yn ymwneud â goroeswyr, sicrhau'r ymatebion diogelu cywir a chael cofnodion iechyd a gwybodaeth. Os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â cham-drin yn y gorffennol pan oedd y goroeswr/goroeswyr yn blant, yna mae'n hanfodol cael rhywun sy'n arbenigo mewn ymchwilio i gam-drin plant. Yn achos Ymgyrch Pallial, defnyddiwyd swyddogion CEOP (Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein) wedi'u hyfforddi, yn ogystal â rhai â setiau sgiliau yn gweithio gydag oedolion sy'n oroeswyr ac iechyd meddwl oedolion. Gwnaed trefniadau hefyd i'r staff cwmsela dderbyn hyfforddiant arbenigol mewn therapi cyn-achos i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu'n briodol drwy gydol yr ymchwiliad.

Mae cyswllt ac ymdrin â goroeswyr yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yr ymchwiliad. Mae cysondeb o ran pwy sy'n cynnal y cyswllt yn hollbwysig ar gyfer sicrhau ymddiriedaeth a hyder y goroeswr sydd, yn ei dro, yn effeithio ar ansawdd unrhyw ymchwiliadau'n uniongyrchol a llwyddiant unrhyw erlyniadau. Mae'n allweddol bod yn gywir a chryno wrth gofnodi'r hyn mae unigolyn yn ei ddweud ar y dechrau, er mwyn peidio â drysu rhwng goroeswyr a'r rhai a amheuir ac osgoi unrhyw broblemau o ran datgelu a allai godi'n ddiweddarach.

Mae rheoli diogelwch wedi bod yn gryfder gwirioneddol yn yr ymchwiliad hwn. Os yw goroeswyr yn byw mewn ardal gwasanaethau cymdeithasol wahanol, mae'n hanfodol cael un cydlynnydd i sicrhau bod yr ardal honno'n

ymwneud â'r gwaith a bod diogelu effeithiol yn cael ei sicrhau lle bynnag y bo angen.

Dylid ystyried staffio fîm yr heddlu a gwaith cymdeithasol â swyddogion sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â phrofiad o ymdrin ag oedolion sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol a chorfforol. Gallai Eiriolwyr Trais Rhyw Annibynnol hefyd gynorthwyo i baratoi a goruchwyllo asesiad o anghenion.

Mae'n bwysig sicrhau cyllid ar gyfer cwmsela unigol tymor byr a thymor hir i oroeswyr.

Ni ddylid ymwrthod â'r syniad o 'daliad uniongyrchol' i unigolion allu 'prynu' eu trefniadau cwmsela preifat eu hunain os nad oes modd cytuno ar atgyfeiriad at wasanaeth cwmsela penodol.

Mae'n bwysig cydnabod y gallai cwmsela estyn ymhell y tu hwnt i gyfnod yr ymchwiliad i rai goroeswyr ac y bydd angen adnoddau priodol ar ei gyfer. Rhaid rhoi ystyriaeth i effaith y lefel o adnoddau sydd ei angen i gefnogi ymchwiliad mor eang ei gwmpas ar y nifer cyfyngedig o gyrff sy'n darparu cwmsela arbenigol, ar gyfnod lle ceir galw sylweddol yn gyffredinol.

Ar ôl y cyfweiliad ffurfiol â'r heddlu ac eto ar ôl cyflwyno tystiolaeth yn y llys, mae'n bwysig cysylltu â'r goroeswr gartref rhag ofn bod anghenion cymorth ychwanegol.

Os yw goroeswyr yn pryderu am effaith yr ymchwiliad ar eu plant ac aelodau o'u teuluoedd dylid gwneud pob ymdrech i liniaru'r effaith. Gallai fod yn briodol, er enghraifft, mewn trafodaethau â'r goroeswr, i gytuno ar gyswllt gyda'r ysgol ac asiantaethau eraill i ddiogelu llesiant y plant.

Cyfathrebu rhwng y Tim Ymchwilio a'r Goroeswyr

Yn dilyn y cyfweiliad mae cynnal cyswllt ystyrion gyda'r newyddion diweddaraf am gynnydd yr ymchwiliad yn gymorth ond mae angen ei wneud mewn modd gofalus. Dylid ystyried sicrhau bod yr un swyddog sydd wedi adeiladu ymddiriedaeth yn cysylltu â goroeswyr unigol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo.

Y Cyfryngau Cymdeithasol a Darlledu

Gall cyswllt goroeswyr gyda'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Twitter a Facebook, fod yn gatharsis i rai ond i eraill gall ychwanegu pwysau a theimlo'n ymwithiol. Gallai fod yn ddefnyddiol i dimau ymchwilio ddarparu cyngor ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn enwedig os yw'n debygol y gallai negeseuon sy'n cael eu postio gyfaddawdu unplygrwydd yr ymchwiliad neu unrhyw achos llys dilynol.

Mae rhoi gwybodaeth i oroeswyr o flaen llaw am ddatganiadau perthnasol ar y cyfryngau a rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn ymarfer da ac yn rhoi cyfle iddyn nhw baratoi cyn y datganiad neu'r darllediad.

Gall newyddiaduraeth a chyfryngau darlledu cyfrifol fod yn gymorth i oroeswyr pan fydd yn amlwg er lles y cyhoedd, yn cynnig darlun cytbwys a chywir ac yn parchu cais unigolion i fod yn ddienw.

Dylai gwybodaeth fod ar gael i oroeswyr a thystion am y cyfyngiadau sy'n bodoli ar ohebu ar ôl y cyfweiliad heddlu cyntaf ac eto cyn i achos llys ddechrau.

Mae angen i rai cyrff cyfryngau darlledu fod yn fwy cyfrifol wrth gysylltu'n ddigymell â goroeswyr, rhaid iddyn nhw barchu eu hawl i fod yn ddienw a gwrthod gwneud sylw. Nid yw cysylltu eto ac eto a chymhellion ariannol i siarad yn gymorth ac maen nhw'n cynyddu'r straen ar rywun sydd eisoes mewn sefyllfa fregus.

Dylid ystyried caniatáu i dîm yr ymchwiliad weithredu fel asiantau i oroeswyr gyda chyrrff newyddion a'r cyfryngau pan fydd achos llys yn dod i ben.

Y Profiad yn y Llys

Mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu o flaen llaw am yr holl drefniadau ymarferol ar gyfer mynychu'r llys. Dylai hyn gynnwys opsiynau teithio, archebu gwesty, pa dreuliau sy'n daladwy a chymorth gyda chostau gofal plant neu drefniadau gofalu.

Mae unedau gofal tystion fel arfer yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth i oroeswyr ynglŷn â'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn y llys a pha gymorth a allai fod yn angenrheidiol iddyn nhw. Mae'r hawl hwn sydd gan oroeswyr wedi'i egluro ynghyd â nifer o rai eraill yng 'Nghod Dioddefwyr' Llywodraeth y DU:

(https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/341367/adult-victims-code-leaflet.pdf) Er mwyn sicrhau cysondeb o ran cyfathrebu â thystion, penderfynodd Ymgyrch Pallial osgoi'r unedau gofal tystion ac ymdrin â gofal y tystion ei hun. Mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol, byddai o gymorth pe bai gwybodaeth am y Cod Dioddefwyr yn cael ei rhannu gyda'r holl oroeswyr, boed drwy'r unedau gofal tystion neu'r ymchwiliad ei hun.

Byddai darparu gwybodaeth ysgrifenedig o gymorth o ran beth i'w ddisgwyl wrth fynychu'r llys, bod cymorth ar gael i dystion os oes angen, disgrifiad o gynllun ffisegol yr adeilad a'r llys, sut bydd modd sicrhau eu bod yn aros yn ddiennw yn yr adeilad, y cyfyngiadau ar ohebu a manylion cyswllt ar gyfer cwestiynau neu gyngor.

Dylid gwneud pob ymdrech yn adeilad y llys i ddiogelu cyfrinachedd y goroeswyr a'r tystion. Dylid atal yr arfer o alw enwau yn yr ardaloedd aros cyhoeddus a dangos rhestrau o enwau a dylid cyflwyno dull mwy sensitif.

Dylai hyfforddiant i wirfoddolwyr cymorth i dystion gynnwys gofyn i'r tystion pa lefel o gymorth sydd ei angen arnyn nhw er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ragdybiaethau'n cael eu gwneud am yr hyn sydd ei angen.

Yn y llys mae'r arfer o ddefnyddio sgrin i warchod y goroeswr neu'r tyst rhag gweld y sawl a gyhuddir yn cael ei werthfawrogi ac mae'n helpu'r unigolyn sy'n cyflwyno tystiolaeth.

Mae'n werth nodi yr ystyriwyd fod y ffordd y cynhaliwyd yr achos yn y llys gan y Barnwr, yr amddiffyn, Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion Pallial yn barchus a phroffesiynol.

Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron ystyried symleiddio'r nodiadau canllaw sy'n cyd-fynd â'r ffurflenni treuliau a gyflwynir i dystion.

Terfynu'r Broses

Dylid ystyried ysgrifennu at oroeswyr a thystion pan fydd achos llys yn dod i ben gyda manylion y cyhuddiadau unigol a sut y deliwyd â phob un. O bersectif y goroeswr, mae hyn yn rhan bwysig o ddeall y goblygiadau personol, sut y defnyddiwyd eich tystiolaeth ac mae'n cynorthwyo i ddod i delerau â therfynu'r achos.

I'r rhai y mae eu tystiolaeth yn ymwneud â chamdriniwr sydd wedi marw, a lle mae'r heddlu a Gwasanaeth Eryl y Goron yn cydnabod y byddai'r mater wedi arwain at gyhuddiadau pe bai'r camdriniwr wedi byw, mae angen cadarnhad o hynny ar y goroeswyr, yn ysgrifenedig os yn bosibl. Mae hyn yn bwysig i'w cynorthwyo i wella a derbyn cydnabyddiaeth gan rywun mewn awdurdod bod achos i'w ateb gan y camdriniwr. I'r goroeswyr mae hyn yn gydnabyddiaeth bod rhywun wedi'u credu.

Er bod yr angen i sicrhau cyfiawnder, cael gwrandawriad a chael eich cymryd o ddifrif yn bwysig i'r goroeswyr, elfen bwysig arall yw'r awydd i sicrhau bod y gwersi y gellir eu dysgu'n cael eu cymhwyso i ddiogelu plant heddiw ac oedolion eraill sydd wedi goroesi. Mae hon yn dasg i Grwpiau Cydlyn Strategol neu'r Comand Aur werthuso profiad y goroeswyr ymhellach, canfod goblygiadau ymarfer a chyfleu'r rheini i asiantaethau, arolygiaethau a llywodraethau (lleol, gweinyddiaethau datganoledig a'r DU).

Llais

Cododd mater arall yn sgil y cyfweiliadau oedd yn canolbwyntio ar brofiad y plentyn o siarad am gamdriniaeth. Roedd y mwyafrif yn teimlo na allen nhw siarad pan oedden nhw'n cael eu cam-drin am eu bod yn ofnus a phryderus neu'n teimlo gormod o gywilydd i siarad â'u teulu ar y pryd. Soniodd un goroeswr am y ffordd mae plant *"yn cael eu hannog i beidio â dweud"*. Mae hyn yn codi'r angen i wneud yn siŵr bod plant yn gwybod am eiriolwyr annibynnol proffesiynol a'u bod ar gael i siarad â phlant a phobl ifanc mewn gofal heddiw (gweler adroddiadau Lleisiau Coll, gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar www.complantcymru.org.uk).

Yr ail bwynt sy'n codi yw pan siaradodd y goroeswyr hyn â gweithiwr proffesiynol neu ofal pan oedden nhw'n blant, cawson nhw eu hanwybyddu neu ni chafodd unrhyw gamau eu cymryd. O edrych yn ôl mae'r goroeswyr yn cydnabod bod diwylliant y sefydliad siŵr o fod yn atal pobl rhag gwneud y peth iawn. Mae hyn yn codi pryder am chwythu'r chwiban a'r cysylltiadau negyddol braidd yn ymwneud â chwythu'r chwiban ar eich cyflogwr neu gydweithwyr. Os ydym ni am gyflawni diwylliant mwy cadarnhaol o wrando a gweithredu ar bryderon mae'n rhaid i ni ganoli ein hymarfer ar wrando a gweithredu ar yr hyn mae plant yn ei godi a sicrhau cefnogaeth i ymarferwyr sy'n dymuno gwneud y peth iawn. Mae hyn yn estyn at warchod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed a'r rheini sy'n gweithredu er eu lles. Rhaid i ni ddatblygu diwylliant mwy cyfrifol a chadarnhaol ym maes chwythu'r chwiban, a chanmol yn hytrach na chosbi'r rheini sy'n gweithredu i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Dysgu'r gwersi: Cyfathrebu

Cynlluniau Cyfathrebu

Sicrhodd Ymgyrch Pallial fod strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr yn weithredol ar ddechrau'r ymchwiliad. Cafodd y rhain eu cynllunio, eu datblygu a'u rheoli gan ymgynghorydd cyfathrebu strategol profiadol penodol a'r gallu i sicrhau arweiniad a chymorth gweithredol a threfniadol. Roedd yr ymgynghorydd cyfathrebu strategol hefyd yn gweithredu fel cydlynnydd ar gyfer materion yn ymwneud â chyfathrebu ac ymgysylltu oedd yn cynnwys asiantaethau a chyrff partner yn gysylltiedig a'r ymchwiliad.

Rhannwyd strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu Ymgyrch Pallial gydag asiantaethau partner ar gyfer ymgynghori ac adborth ac fe'u hadolygwyd yn gyson mewn cyfarfodydd o'r Grŵp Cydlynu Strategol rhyngasiantaethol. Mae hyn wedi sicrhau, lle bo'n bosibl, bod anghenion cyfathrebu ac ymgysylltu Ymgyrch Pallial yn cyd-fynd â rhai'r partneriaid eraill ac yn cael eu datblygu gan roi ystyriaeth lawn o leiaf i farn y partneriaid. Mae holl weithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu Pallial wedi'i ddatblygu mewn modd tryloyw ac agored.

Wrth gynllunio ei ddull o gyfathrebu ac ymgysylltu, mae Pallial wedi ystyried yn ofalus effaith bosibl ei ymchwiliad annibynnol ar enw da Heddlu Gogledd Cymru a hyder goroeswyr camdriniaeth rywiol blaenorol a newydd.

Gosodwyd chwe amcan cyfathrebu strategol ar gyfer strategaeth cyfathrebu cam un ar ddechrau'r ymgyrch. Yn gryno, y rhain oedd:

- Dynodi rhanddeiliaid a datblygu strategaeth ymgysylltu a chynllun gweithredu.
- Cytuno ar brotocol cyfathrebu gyda rhanddeiliaid i rannu gwybodaeth.

- Cytuno ar brotocol cyfathrebu gydag Adolygiad Macur (Ymchwiliad arall dan arweiniad Barnwr i faterion perthynol).
- Cysylltu ag ymchwiliadau a heddluoedd eraill fel bo'n briodol.
- Datblygu proses ar gyfer ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Datblygu cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu wrth gefn, gan gynnwys strategaethau cyfathrebu penodol ar gyfer arestio, ac adolygu'r anghenion cyfathrebu'n rheolaidd yng ngoleuni anghenion sefydliadol neu weithrediadol datblygol.

Datblygwyd y strategaethau i ddiwallu'r holl ofynion cyfredol a thebygol yn y dyfodol yng ngham un (cwmpas, a chyhoeddi Adroddiad Cyhoeddus ar Gynnydd) a cham dau yr ymchwiliad.

Mae gwaith yn cael ei fireinio ymhellach, mewn partneriaeth, ar gyfer rheoli cyfathrebu sy'n ymwneud â chyhuddiadau troseddol, achosion llys ac ymchwiliadau sydd wedi'u cwblhau nad ydyn nhw'n arwain at ganlyniad cyfiawnder troseddol e.e. achos lle nad oes erlyniad am fod y sawl a amheuir wedi marw.

Gosodwyd nifer o amcanion penodol i gynorthwyo cam dau Ymgyrch Pallial – y cam ymchwilio. Y rhain yn gryno oedd sicrhau bod y gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu'n gwneud y canlynol:

- Hwyluso'r gwaith o gynnal yr ymchwiliad yn effeithiol.
- Cynnal unplygrwydd yr ymchwiliad.
- Ymateb i adroddiadau neu ddyfalu anghywir (mewnol neu allanol).
- Diogelu unplygrwydd Ymgyrch Pallial ac enw da'r gweithlu a'r sawl oedd yn arwain yr ymchwiliad.
- Hysbysu rhanddeiliaid a sicrhau eu bod yn cefnogi, ymgysylltu a deall yr ymchwiliad a'r strategaeth cyfathrebu gysylltiedig.
- Cynorthwyo â rheoli cysylltiadau â rhanddeiliaid.
- Cyfrannu, lle bo'n bosibl, at gynnal hyder yng ngwaith plismona Heddlu Gogledd Cymru (y gweithlu a'r cyhoedd, gan gynnwys goroeswyr).
- Sicrhau aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn drylwyr, yn annibynnol ac yn broffesiynol a chymesur.
- Sicrhau bod gweithlu Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu hysbysu am natur yr ymchwiliad a'i gynnydd.
- Creu hyder yn y cyhoedd ac annog goroeswyr a thystion i gysylltu gyda gwybodaeth am gamdriniaeth yn y gorffennol neu'r presennol.
- Dangos bod perthynas waith broffesiynol ac effeithiol yn bodoli rhwng yr holl bartion yn yr ymchwiliad drwy weithredu strategaeth cyfathrebu gyffredin.

Cytunwyd ar set o 'negeseuon allweddol', oedd yn cael eu hadnewyddu'n gyson a'u defnyddio gan yr holl bartion yn yr ymchwiliad i gefnogi'r amcanion uchod. Roedd y negeseuon allweddol hyn yn sicrhau bod gan yr holl gynulleidfaoedd ddealltwriaeth glir o'r ymchwiliad e.e. y ffaith ei fod yn cael ei reoli'n annibynnol o Heddlu Gogledd Cymru a'i fod yn ymchwiliad i honiadau o gam-drin yn y system gofal yng Ngogledd Cymru, ac nid mewn cartrefi gofal unigol yn unig.

Er mwyn sicrhau bod Cylch Gorchwyl a rôl y Grŵp Cydlyn Strategol yn weladwy a hygyrch, cyhoeddwyd gwybodaeth ychwanegol yn yr Adroddiad Cyhoeddus ar Gynnydd a hefyd ar wefan yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol. Mae hwn wedi bod yn bwynt cyfeirio cyhoeddus defnyddiol i bobl sydd wedi holi beth yw Pallial ac nid yw'n gyfrifol am ymchwilio. Mae hefyd yn dangos y natur agored a thryloyw mae'r ymchwiliad wedi ceisio ei chynnal, o fewn ffiniau gweithrediadol, drwy gydol yr ymchwiliad.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a 'ffocws ar y dioddefwr'

Datblygwyd cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddynodi a blaenoriaethau cynulleidfaoedd allweddol a dulliau cyfathrebu, a chytunwyd arno yn y Grŵp Cydlynu Strategol.

Mae'r ymchwiliad wedi cynnal ffocws clir ar y dioddefwr wrth gyfathrebu ar bob cam. Mae wedi sicrhau, lle bo'n bosibl, bod goroeswyr wedi'u hysbysu am gamau gweithrediadol allweddol ac adroddiadau cyhoeddus allweddol cyn i'r wybodaeth hon fynd i'r parth cyhoeddus. Enghraifft o hyn oedd yr Adroddiad Cyhoeddus ar Gynnydd ym mis Ebrill 2014. Cysylltodd swyddogion a staff yn yr Ystafell Ymchwilio yn bersonol â'r holl achwynwyr (goroeswyr) cyfredol ar y pryd i'w hysbysu bod adroddiad yn mynd i gael ei gyhoeddi ac y byddai'n cael sylw yn y cyfryngau. Gwnaed trefniadau arbennig i sicrhau bod goroeswyr yn cael gweld yr adroddiad cyn cynulleidfaoedd eraill os oedden nhw'n dymuno gwneud.

Yn ogystal â chael newyddion yn rheolaidd am gynnydd yr ymchwiliadau i'w honiadau, mae goroeswyr hefyd wedi'u hysbysu am gyhoeddusrwydd arall o flaen llaw, er enghraifft rhaglen am Pallial ar BBC Wales.

Er na all yr ymchwiliad hysbysu'r holl oroeswyr am arestiadau a phob datblygiad, nhw yw'r prif grŵp o rhanddeiliaid a chaiff eu hanghenion eu trafod ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Cydlynu Strategol, sy'n cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, cynrychiolwyr elusennau'n gweithio gyda goroeswyr a phlant a chynrychiolydd o'r gymuned leol.

Mae rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol hefyd wedi cael gwybodaeth o flaen llaw am arestiadau a chyhuddiadau ac mae nodiadau briffio manylach wedi'u rhannu'n rheolaidd. Mae Ymgyrch Pallial wedi briffio ASau Gogledd Cymru, aelodau o Lywodraeth Cymru ac mae wedi ateb cwestiynau gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref. Mae'r Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Gymreig hefyd yn cael eu hysbysu'n llawn am y cynnydd.

Mae'r ymgyrch hefyd wedi sicrhau cyswllt clos gydag ymchwiliadau a heddluoedd eraill, yn enwedig mewn perthynas ag arestio a/neu gyhuddo pobl dan amheuaeth ledled y DU, ac nid lleiaf er mwyn sicrhau bod asesiadau effaith a risg cymunedol yn cael eu cynnal a bod unrhyw sylw yn y cyfryngau'n ffeithiol ac yn gywir.

Strategaeth y Cyfryngau

Mae strategaeth cyfryngau Ymgyrch Pallial wedi'i chynllunio i sicrhau bod llif priodol o wybodaeth ffeithiol ar gael i'r cyhoedd sy'n dangos gweithgaredd a chynnydd; wedi'i gyfleu mewn modd nad yw'n codi proffil yr ymchwiliad yn ddiangen.

Mae ymgysylltu â'r cyfryngau yn cael ei wneud ar sail gyffredin yn hytrach nag un i un er mwyn sicrhau bod yr holl sefydliadau'n cael mynediad cyfartal a'r un wybodaeth. Nid oes unrhyw broblemau sylweddol wedi codi drwy fabwysiadu'r dull hwn hyd yma ac mae adborth newyddiadurwyr yn nodi bod Pallial yn cyfathrebu mewn modd clir a chyson, er y byddai newyddiadurwyr bob amser yn dymuno cael gwybodaeth neu fynediad ychwanegol iddyn nhw eu hunain.

Pan fu'r ymgyrch yn cynorthwyo â rhaglen deledu, gwnaeth yn siŵr fod yr holl wybodaeth ffeithiol newydd ar gael i'r holl gyfryngau cyn darlledu'r rhaglen, a thrwy hynny sicrhau bod y dull cyson strategol yn cael ei gynnal.

Daeth yr ymchwiliad yn ymwybodol yn gynnar, yn dilyn adborth gan oroeswyr, bod sylw ar y cyfryngau oedd yn defnyddio delweddau o un cyn gartref plant yng ngogledd Cymru dro ar ôl tro yn peri gofid; naill ai am fod goroeswyr wedi byw yno, neu am nad oedd unrhyw gysylltiad o gwbl gan eu hachos nhw â'r cartref dan sylw. Rhannwyd yr adborth hwn gyda'r cyfryngau ac mae bron pob un wedi peidio â defnyddio delweddau o'r cartref dan sylw mewn adroddiadau dilynol. Mae goroeswyr wedi siarad yn gadarnhaol am yr ymateb hwn i'w pryderon gan yr ymchwiliad.

Mae Pallial hefyd wedi bod yn ofalus i gyfathrebu am gam-drin plant o fewn ei gylch gorchwyl ei hun yn unig ac nid yw wedi cael ei dynnu i'r drafodaeth ehangach am ymchwilio i gam-drin plant, boed yng Nghymru neu mewn manau eraill. Mae hyn er mwyn sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, bod cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn parhau'n glir. Serch hynny, mae'r ymchwiliad wedi ceisio rhannu ymarfer gorau a gwersi a ddysgwyd gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid eraill ac mae wedi trefnu adolygiad annibynnol o'i waith, gan gynnwys elfennau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Cymorth ychwanegol i oroeswyr mewn perthynas â'r cyfryngau

Mae nifer o oroeswyr wedi siarad yn gyhoeddus a thrwy hynny wedi'u heffeithio'n bersonol. Mae'r fîm ymchwilio wedi cynnig cyngor ac arweiniad ar y cyfryngau i oroeswyr a thystion ac mae un person wedi'i dderbyn hyd yma.

Nid oes dim y gall nac y dylai Pallial ei wneud i atal goroeswyr rhag siarad â'r cyfryngau, os ydyn nhw'n gwneud penderfyniad gwybodus i wneud hynny, ond yn aml mae goroeswyr yn gwneud penderfyniad yn y fan a'r lle ac yn difaru'n ddiweddarach. Unwaith y caiff anhysbysrwydd ei dynnu, ni ellir ei adfer, ac mae angen cynghori goroeswyr ar yr effaith y gallai cyhoeddusrwydd ei gael arnyn nhw, eu ffrindiau a'u teuluoedd yn ogystal ag unrhyw achos cyfreithiol yn y dyfodol.

Materion Allweddol

Bu'n rhaid i Ymgyrch Pallial fynd i'r afael â nifer o broblemau cyfathrebu, gyda rhai'n benodol i'r ymchwiliad a rhai ar bynciau trafod cenedlaethol. Enghraifft nodedig yw'r drafodaeth genedlaethol barhaus ynglŷn â phryd y dylai'r heddlu ddatgelu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, am unigolion a gaiff eu harestio am droseddau rhyw.

Mae llawer o newyddiadurwyr yn teimlo y dylai'r heddlu fynd ati'n rhagweithiol i enwi unigolion a gaiff eu harestio ar yr adeg y cânt eu harestio. Ar wahân i'w diddordeb proffesiynol yn cael gwybodaeth ar unwaith gan gorff swyddogol, a thrwy hynny sicrhau dilysrwydd i'w hadroddiadau, mae newyddiadurwyr yn dadlau ei bod bob amser er lles y cyhoedd ac y gall gynorthwyo i annog goroeswyr eraill i ddod ymlaen.

Mae llawer o oroeswyr troseddau rhyw hefyd yn dymuno i enwau'r troseddwyr honedig gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Mae'r mater hwn wedi'i drafod yn y Grŵp Cydlynu Strategol ar fwy nag un achlysur. Mae Ymgyrch Pallial yn gweithredu'n unol â chanllawiau cenedlaethol gwasanaeth yr heddlu, ond mae wedi mynd ymhellach drwy benderfynu asesu cyfathrebu'n ymwneud ag arestio ar sail pob achos unigol. Yn y modd hwn, bydd yr ymchwiliad yn ystyried a oes diben plismona yn deillio o enwi unrhyw unigolyn penodol pan gaiff ei arestio ac yna bydd yn gwneud penderfyniad gwybodus a ddylai wneud hynny ai peidio.

Os yw penderfyniad wedi'i wneud i beidio ag enwi unigolyn ar adeg ei arestio, mae Pallial wedi'i enwi pan fydd yr unigolyn naill ai wedi'i gyhuddo o droseddau neu ar ôl ateb gŵys i ymddangos yn y llys. Ymgynghorwyd â phartneriaid yn hyn o beth a chadarnhawyd y dull a fabwysiadwyd.

Mae materion y bydd angen delio â nhw yn y dyfodol yn cynnwys y modd y bydd y sawl sydd wedi gwneud honiadau yn erbyn pobl marw yn derbyn gwybodaeth, gan gynnwys unrhyw ddatganiad cyhoeddus am y drosedd/ troseddau a'r rhai a amheuir. Mae datganiadau cyhoeddus, gyda rhai'n enwi pobl a amheuir, wedi'u gwneud mewn achosion mewn rhannau eraill o'r wlad a bydd angen ystyried barn unigolion ac asiantaethau'n ofalus pan fydd y pwynt hwn yn cyrraedd.

Amrywiaeth

Ceir dwy iaith swyddogol yng Nghymru – y Gymraeg a'r Saesneg. Cytunodd y Grŵp Cydlynu Strategol yn gynnar ar yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n galw am gyfathrebu allweddol yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae Ymgyrch Pallial yn ymwybodol o drafodaethau ffynhonnell agored ar y cyfryngau cymdeithasol am yr ymchwiliad, yn enwedig ar Twitter, ond mae wedi gwneud penderfyniad gwybodus, gyda chefnogaeth partneriaid, i beidio ag 'ymwthio' i sgysiau mewn gofod o'r fath.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i oroeswyr a thystion rannu profiadau, mynegi barn bersonol gref a chefnogi ei gilydd. Mae'r trafodaethau'n aml yn adlewyrchu adroddiadau newyddion ar-lein cyfredol, yn ogystal â sylw ar y teledu, radio ac mewn print.

Ar gam cynnar yn yr ymchwiliad, ceisiwyd cymorth un 'blogiwr' rheolaidd i raeadru diweddariad ffeithiol i'r gymuned ar-lein oddi wrth yr Uwch Swyddog Ymchwilio, er mwyn gosod yr ymchwiliad yn ei gyd-destun a darparu peth sicrwydd. Yn gyffredinol cafwyd croeso i'r cyfraniad hwn.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae nifer o gyrff cyhoeddus sydd â diddordeb yn y digwyddiadau'n arwain at yr ymchwiliad hwn wedi derbyn ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Uned Cyfeiriadau Canolog (CRU) Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi cymryd cyfrifoldeb am gynorthwyo Ymgyrch Pallial a'i randdeiliaid gyda'r ceisiadau hyn.

Mae'r CRU wedi cynghori cyrff sydd wedi derbyn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn. Fodd bynnag mae'r penderfyniad a ddylid cyhoeddi'r deunydd a geisir yn gorwedd yn llwyr gyda'r asiantaeth sy'n dal y deunydd hwnnw. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer rhai amgylchiadau lle gellir gwrthod cyhoeddi, er enghraifft os bernir y gallai niweidio ymchwiliad troseddol neu arwain at adnabod unigolyn sydd â hawl i anhysbysrwydd.

Nid yw'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ond mae wedi mabwysiadu agwedd o ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n briodol, gan roi ystyriaeth i anghenion y goroeswyr, yr ymchwiliad a'r broses cyfiawnder troseddol.

Crynodeb

Caiff cyfathrebu ac ymgysylltu eu rheoli'n weithredol o ddydd i ddydd a'u hadolygu a'u trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Grŵp Cydlynu Strategol a hyd yma, mae'r holl weithgaredd wedi'i gyflawni mewn modd cydsyniol ar draws yr asiantaethau ac elusennau.

Gan fod yr effaith ar oroeswyr cyhoeddusrwydd yn gallu bod yn sylweddol ac yn hirymarhous, caiff y gofal a'r ffocws sy'n cael eu cynnal ar yr agwedd hon o'r gwaith eu nodi a'u gwerthfawrogi.

Pwyntiau dysgu:

Dylid sefydlu strategaeth cyfathrebu effeithiol ar ddechrau'r ymchwiliad. Dylai gynnwys: cwmpas neu Gylch Gorchwyl yr ymchwiliad, strwythur y modd y caiff cyfathrebu ei gyflwyno, amcanion cyfathrebu strategol, negeseuon mewnol ac allanol allweddol i'w cyflwyno, cynlluniau datganiadau i'r wasg, rheoli'r cyfryngau / lles y cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol, asesu'r effaith ar y gymuned, polisi Rhyddid Gwybodaeth, brandio, cynlluniau cyfryngau penodol ar gyfer arestiadau / pen-blwyddi, sut gall goroeswyr gysylltu, cyfarwyddiadau i'r asiantaethau hynny y cyfeiriwyd goroeswyr atynt, protocolau a gytunir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth o asiantaethau i'r ymchwiliad, strategaeth rhanddeiliaid a sefydlu llinellau ffôn ac ebost penodol.

Nododd y goroeswyr eu hunain nifer o bwyntiau dysgu mewn perthynas â chyfathrebu (gweler pennod 1 am ragor o wybodaeth), gan gynnwys:

- Mae rhoi gwybodaeth o flaen llaw i oroeswyr am ddatganiadau cyfryngau perthnasol a rhaglenni neu erthyglau newyddion yn ymarfer da ac yn caniatáu iddyn nhw baratoi cyn rhyddhau neu ddarlledu.
- Dylai timau ymchwilio ddarparu cyngor am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn enwedig lle gallai negeseuon a gaiff eu postio gyfaddawdu unplygrwydd yr ymchwiliad neu unrhyw achos llys dilynol.

Mae ymchwilwyr hefyd wedi dweud wrthym o bersbectif gweithrediadol, bod angen defnydd cyson o'r system HOLMES – offeryn sy'n cael ei ddefnyddio i recordio gwybodaeth mewn ymchwiliadau mawr. Bydd hyn yn galluogi fîm yr ymchwiliad i gofnodi a blaenoriaethu gwybodaeth yn gywir.

Dysgu'r gwersi: Cymorth i Oroeswyr a Phontio

Cefndir

Yn ystod chwe mis cyntaf yr ymchwiliad, roedd fîm dynodedig o weithwyr cymdeithasol CEOP (Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein) a chafodd Rheolwr Gofal Cymdeithasol â'r profiad priodol ei secondio o'i swydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sir Conwy i Ymgyrch Pallial o ddechrau mis Rhagfyr 2012. Cyllidwyd y swydd ar y cyd gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Roedd profiad helaeth gan yr ymarferwyr hyn o weithio gyda phlant oedd wedi cael eu camddefnyddio, plant mewn gofal ac oedolion oedd wedi goroesi camdriniaeth.

Roedd y rôl diogelu'n cynnwys trefnu a darparu cymorth oedolion oedd wedi goroesi camdriniaeth yn blant yng ngogledd Cymru a gweithredu fel cyswllt rhwng Awdurdodau Lleol ac Ymgyrch Pallial i hwyluso cyrchu cofnodion gofal plant.

Credir yn eang bod y swydd hon wedi bod yn hanfodol i sicrhau gwaith ar draws asiantaethau, gan rannu arbenigedd adrannau gwasanaethau cymdeithasol, creu dealltwriaeth o waith yr heddlu ac o'r ffordd orau i gefnogi goroeswyr.

Mae wedi bod yn hanfodol sicrhau bod her i'r cyfrifoldebau diogelu ac ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Cydlynu Strategol rhoddwyd diweddariad manwl i aelodau ar y gweithgaredd a wnaed. Adolygwyd gwaith y fîm ym mis Mai 2013 ac ym mis Rhagfyr 2014 gan y Cyfarwyddwr arweiniol ar ran y chwe awdurdod yng ngogledd Cymru ac uwch swyddog o CEOP.

Cwswela a Chymorth

O'r dechrau, cydnabu gweithwyr proffesiynol y problemau posibl a allai godi mewn perthynas â darparu'r cymorth sydd ei angen ar oroeswyr ar yr adeg mae ei angen arnyh nhw, a'r canfyddiad o ymddangos fel pe bai'r goroeswyr yn cael eu 'hyfforddi' cyn cyflwyno tystiolaeth. Comisiynwyd therapi cyn yr achos gan ddarparwr cwswela lleol, wedi'i gyllido ar y cyd gan y chwe awdurdod lleol, i'r clwstwr mawr o oroeswyr a ddaeth ymlaen ac sy'n dal i fyw yng ngogledd Cymru.

Testun pryder arall yw y gallai tystion roi stori wahanol i'w cwswelwr i'r hyn a roddwyd yn eu datganiad i dîm yr ymchwiliad. Mae hyn yn aml am fod goroeswyr yn teimlo'n fwy cyfforddus gyda chwswelwr ac felly ychwanegu mwy o fanylion. Gallai'r amddiffyn ddefnyddio'r anghysonderau hyn i awgrymu nad yw'r tystion hyn yn dweud y gwir. Mae Ymgyrch Pallial wedi rheoli'r sefyllfa hon drwy sicrhau bod cwswelwyr yn cymryd nodiadau manwl o'r hyn sy'n cael ei ddweud, a chaiff y nodiadau hyn eu datgelu, lle bo angen, i osgoi niweidio'r achos o ganlyniad i'r cymorth cwswela.

Mae swyddogion Ymgyrch Pallial a'r gweithwyr cymdeithasol dynodedig wedi treulio amser yn adeiladu ymddiriedaeth gyda goroeswyr ac ni chafwyd unrhyw gyfyngiadau ar yr amser penodol mae pob unigolyn wedi'i dderbyn. Mae nifer o oroeswyr yn cysylltu'n rheolaidd ac wedi derbyn cymorth lle bo'n bosibl gyda materion eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd neu ddatrysiadau tai.

I oroeswyr y tu allan i ardal gogledd Cymru, mae trefniadau i gynorthwyo'r unigolion hynny wedi'u gwneud yn eu hardaloedd lleol. Mae arbenigedd a gwybodaeth leol y Gwasanaeth

Cymorth i Ddiodefwyr wedi bod yn hynod o werthfawr i gyrchu rhai o'r trefniadau hyn.

Mae nifer o achosion cymhleth wedi derbyn cymorth, lle nad yw'r goroeswyr eto'n barod i dderbyn cwnsela na chymorth gan y gwasanaethau lleol.

Wrth gynorthwyo unigolion, gyda'u caniatâd, mae wedi bod yn bwysig cysylltu â meddygon teulu, Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamdrin Sylweddau.

Dyhead Ymgyrch Pallial fu sicrhau bod goroeswyr wedi derbyn ac y byddan nhw'n parhau i dderbyn yr un lefelau priodol o ofal a chymorth lle bynnag y bônt yn byw bellach yn y DU. Fodd bynnag bydd hyn yn heriol yn wyneb amrywiaeth y ddarpariaeth gofal ar draws y DU.

Yn ogystal â'r cymorth i oroeswyr, mae ymchwilyr Ymgyrch Pallial wedi cael cyswllt personol â gweithwyr iechyd galwedigaethol proffesiynol drwy gydol yr ymchwiliad hwn.

Tim yr Ymchwiliad a Phontio

Mae Tîm yr Ymchwiliad wedi ceisio sicrhau cysondeb i'r achwynwyr o'r dechrau o ran amledd y cyswllt a phwy sy'n gwneud y cyswllt hwnnw. Bydd cyswllt gyda phob achwynydd bob chwe wythnos, gorau oll os yw'r un aelod tîm yn ei wneud. Mae hyn er gwaethaf yr heriau mae'r ymchwiliad yn eu hwynebu o ran cadw staff a'r ffaith nad yw hyfforddiant staff ar gyfer ymdrin â goroeswyr ag anghenion o'r fath wedi mynd llawer pellach na'r broses casglu tystiolaeth.

Yn amlwg, ar ryw bwynt, bydd yr ymchwiliad a gododd o honiad(au) pob achwynydd yn gyflawn, gyda phob un yn wynebu canlyniad gwahanol:

- Mae terfyn amser statudol gan yr honiad(au) ar gyfer cychwyn achos (er enghraifft ymosodiad cyffredin, a rhai troseddau rhyw) ac mae'r rhain wedi pasio. Fel arfer, caiff yr achwynwyr, fydd yn ôl pob tebyg yn ymwybodol o hyn, eu hysbysu'n ffurfiol drwy lythyr gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio a gwneir ymdrech i'w ddanfôn â llaw gan swyddog Pallial.
- Caiff yr holl honiadau eu cofnodi fel troseddau. Mewn achosion lle mae'r ymosodwr honedig wedi marw mae tîm yr ymchwiliad wedi sicrhau cytundeb i gofnodi'r trosedd(au) dan 'Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau 5 – y troseddwr wedi marw'. Bydd yr achwynydd yn derbyn llythyr a ddanfônir â llaw oddi wrth yr Uwch Swyddog Ymchwilio sy'n egluro'r manylion ac yn nodi bod tystiolaeth prima facie i basio prawf trothwy a phe bai'r ymosodwr wedi byw, byddai cais wedi'i gyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron i erlyn yr unigolyn. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhywfaint o gysur i'r achwynydd. Os na cheir

cytundeb i gofnodi'r honiadau fel uchod, am y rheswm mwyaf tebygol nad oes digon o dystiolaeth, yna caiff yr achwynydd wybod pam.

- Yn dilyn ymchwiliad, fe allai'r Uwch Swyddog Ymchwilio gasglu nad oes dystiolaeth ddigonol i symud y mater yn ei flaen. Bydd y sail ar gyfer hyn yn cael ei gofnodi a chaiff yr achwynwyr eu hysbysu gan aelod o dîm Pallial.
- Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu na chaiff camau pellach eu cymryd yn dilyn cyflwyno ffeil achos gan y fîm ymchwilio. Bydd y penderfyniad wedi'i wneud drwy gymhwyso Cod yr Erlynyddion. Mae hyn yn profi digonolrwydd y dystiolaeth ac a fyddai erlyniad er budd y cyhoedd. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfleu drwy lythyr oddi wrth Wasanaeth Erlyn y Goron. Bydd swyddogion Pallial yn hysbysu'r achwynydd o flaen llaw y bydd yn derbyn y llythyr hwn er mwyn ei baratoi am newyddion a allai fod yn anodd ei dderbyn.
- Caiff erlyniad ei gynnal gan ddod i gasgliad. Bydd achwynydd o reidrwydd wedi bod yn ymwneud â'r broses hon drwyddi, boed fel achwynydd am drosedd neu dyst mewn erlyniad arall. Mewn rhai achosion bydd mwy nag un achwynydd a gallai penderfyniad y llys a'r canlyniadau fod yn wahanol i bob un. Cydnabyddir y gallai hyn achosi anawsterau i rai achwynwyr, er enghraifft os yw penderfyniadau'r llys yn awgrymu nad ydyn nhw wedi cael eu credu er bod achwynwyr eraill wedi cael eu credu, oherwydd bod eu hymosodwr wedi'i gael yn ddieuog o droseddu yn eu herbyn ond yn euog o droseddau yn erbyn eraill. Heb naratif rheithgor sy'n esbonio'r rhesymau am eu penderfyniadau, gallai hyn fod yn niweidiol iawn i rai achwynwyr. Y gobaith

yw y bydd rhywfaint o derfynu'n bosibl i'r rhai sy'n gweld eu hymosodwr yn cael ei ddyfarnu'n euog.

Yn amlwg, oherwydd nifer o ganlyniadau posibl ac amseru, bydd cyswllt fîm yr ymchwiliad gyda rhai achwynwyr yn parhau am beth amser a bydd yn dod i ben ar wahanol bwyntiau. Fel ymchwiliad yn canolbwyntio ar y goroeswyr, y bwriad yw y bydd pob achos o safbwynt ymchwiliadol yn dod i ben mewn modd sydd er budd yr achwynydd ac wedi'i deilwra i'w anghenion penodol. Mae'r cyswllt clos sydd eisoes yn bodoli rhwng fîm yr ymchwiliad a'r gwasanaethau cymorth yn sicrhau bod pontio o'r ymchwiliad i unrhyw gymorth tymor hirach angenrheidiol mor esmwyth â phosibl. Wrth gwrs cydnabyddir ei fod yn bosibl na ddaw y mater fyth i ben i'r achwynydd a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau diogelu a gwasanaethau cymorth parhaus eraill.

Staff yr ymchwiliad

Ar wahân i'r achwynwyr, ceir nifer o faterion eraill yn ymwneud â phontio sy'n haeddu sylw. Mae'r cyntaf yn ymwneud â swyddogion ymchwilio Pallial. Bu'n ymarfer o'r dechrau pan fyddai swyddogion yn dychwelyd i'w heddluoedd eu hunain bod yr Uwch Swyddog Ymchwilio yn anfon llythyr at eu Heddlu a'u rheolwr llinell yn egluro natur y gwaith sy'n aml yn heriol a dirdynnol, a gofyn iddyn nhw fonitro eu lles yn ystod y cyfnod o ailintegreiddio. Hyd yma nid oes adroddiadau am broblemau'n codi ar ôl i swyddog ddychwelyd a dylid ystyried hyn yn ymarfer gorau.

Y Grŵp Cydlynu Strategol

Credir bod y Grŵp Cydlynu Strategol wedi chwarae rhan hanfodol yn herio Ymgyrch Pallial yn gryf. Mae'r aelodau hefyd wedi cynnig trosolwg cymunedol defnyddiol a sicrwydd i'r ymchwiliad. Y bwriad yw bydd y Grŵp Cydlynu Strategol yn parhau hyd nes y bydd yr ymdrech ymchwiliadol yn dirwyn i ben ac yn terfynu.

Systemau gwybodaeth

Cynhaliwyd yr ymchwiliad gan ddefnyddio HOLMES a chaiff yr holl ddeunydd a thystiolaeth a gasglwyd ei storio a bydd ar gael i unrhyw Ymchwiliadau perthynol eraill yn y dyfodol. Mae posibilrwydd hefyd y bydd achwynwyr yn ystyried dwyn achosion sifil yn y dyfodol ac yn gofyn am gael mynediad at y deunydd sydd gan yr Ymchwiliad i'w helpu. Os bydd yr Ymchwiliad wedi gorffen erbyn hynny, bydd hyn yn fater i Heddlu Gogledd Cymru ei reoli.

Ymchwiliadau perthnasol parhaus eraill

Bu Cydlynnydd yr Ymchwiliad a'r Uwch Swyddog Ymchwilio mewn seminar ar gyfer yr holl dimau ymchwilio ar draws y DU oedd yn cynnal ymchwiliadau'n ymwneud â cham-drin plant yn y gorffennol er mwyn canfod unrhyw orgyffwrdd ac i rannu ymarfer gorau. Maen nhw hefyd wedi cynghori un heddlu'n uniongyrchol ar ymchwiliad sy'n mynd rhagddo ar gais y Prif Gwnstabl.

Pwyntiau dysgu:

- Sgrinio a darpariaeth lles i staff: gall pobl sy'n ymwneud â'r ymchwiliadau hyn orfod delio â phobl sydd wedi'u niweidio ac sy'n agored i niwed heb fod wedi'u hyfforddi'n llawn i ddelio â nhw a/neu orfod clywed hanesion dirdynol gan y goreswyr a deunydd arall. Mae sgrinio a darpariaeth lles parhaus a rheolaidd i staff yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys y pwynt pan fyddan nhw'n dychwelyd i weithio yn yr heddlu, a sefydlwyd protocol 'dychwelyd i'r heddlu' i sicrhau bod eu rheolwyr llinell yn ymwybodol o'r gwaith y bu'r swyddogion yn ei wneud ac yn parhau i'w monitro.
- Penodi cyfreithiwr o Wasanaeth Erlyn y Goron i weithio ochr yn ochr â'r fîm ymchwilio, gorau oll os yw yn yr un lleoliad.
- Mae dethol a chadw staff yn her allweddol. Mae angen i orfodaeth gyfreithiol yn y DU gyfan ddynodi sut y gellid sicrhau'r adnoddau mwyaf effeithiol i'r ymholiadau hyn yn y dyfodol.
- Sefydlu Grŵp Cydlynu Strategol: gweithredodd y grŵp mewn rôl AUR ac roedd yr aelodau'n cynrychioli elfennau cymunedol, gwleidyddol, diogelu ac ymchwilio allweddol yr ymchwiliad. Roedd hwn yn ased gwerthfawr iawn i'r ymchwiliad.
- Dylai'r Grŵp Cydlynu Strategol i Ymchwiliad Pallial ystyried ymgymryd â darn o waith i gasglu barn mwy o oroeswyr er mwyn darganfod mwy o bwyntiau dysgu i ymchwiliadau yn y dyfodol.

Dysgu'r gwersi: Goblygiadau i Blant Mewn Lleoliadau Gofal Cyfredol yng Nghymru

Ceir nifer sylweddol o blant a phobl ifanc mewn gofal a nifer o leoliadau lle maen nhw'n derbyn gofal:

- Yn 2013 roedd 5770 o blant yn y system derbyn gofal (ystadegau Llywodraeth Cymru, 2013)
- Yn 2013 roedd 125 o gartrefi plant cofrestredig (ystadegau Llywodraeth Cymru / AGGCC, 2013)

Er mwyn gwarchod a diogelu'r holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y wladwriaeth, mae'n bwysig bod fframwaith cadarn o wiriadau yn cael ei sefydlu i sicrhau nad yw'r gamdriniaeth a ddatgelwyd gan Waterhouse byth yn digwydd eto.

Mesurau diogelu cyfredol ar gyfer plant yn y system gofal

Mae pob cartref plant cofrestredig yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol yn Rheoliadau Cartrefi Gofal Plant (Cymru) 2001 a Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007. Mae'r ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth yn cynnwys arweiniad penodol iawn am y modd y caiff cartrefi plant eu rheoli. Maen nhw'n cynnwys pennod ar les plant, sy'n cynnwys adran ar ddiogelu plant sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog cofrestredig y cartref baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig a'r bwriad o ddiogelu plant sy'n lletya yn y cartref rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Mae'n egluro'r drefn i'w dilyn os ceir unrhyw honiad o gam-drin neu esgeulustod. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys adran ar briodoldeb staff i weithio yn y cartrefi.

Wrth gwrs nid yw'r rheoliadau ar eu pen eu hunain yn unrhyw warant y bydd plant yn ddiogel, a dyna pam fod amrediad o fesurau yn eu cefnogi i sicrhau bod y staff sy'n gweithio yn y cartrefi yn gymwysedig, wedi'u hyfforddi'n briodol, eu fetio'n briodol ac yn derbyn cefnogaeth briodol.

Cyngor Gofal Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a sicrhau safonau uchel ar draws gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae iddo rôl arweiniol yn sicrhau bod y gweithlu sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio i safon uchel. Mae hyn yn cynnwys datblygu gweithlu hyderus a chymwys yn y gwasanaethau cymdeithasol a gofal plant sy'n gallu gweithio'n effeithiol, dod i benderfyniadau gwybodus, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf, er budd y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Mae wedi llunio canllawiau ymarfer i reolwyr unedau sy'n egluro'n union yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan reolwyr a dyma gonglfaen ymarfer da yng Nghymru. Mae'r canllawiau'n cynnwys pennod ar hyrwyddo diogelu unigolion.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am arolygu gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio. Eu nod yw darparu sicrwydd annibynnol am ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru, diogelu oedolion a phlant drwy wneud yn siŵr fod eu hanghenion yn cael eu diogelu, gwella gofal drwy annog a hyrwyddo gwelliannau o ran diogelwch, ansawdd ac argaeledd gwasanaethau gofal cymdeithasol, llywio polisi, safonau a darparu cyngor proffesiynol annibynnol i'r bobl sy'n datblygu polisi, y cyhoedd a'r sector gofal cymdeithasol.

Caiff cartrefi plant eu harolygu'n flynyddol ond bydd arolygiadau sy'n canolbwyntio ar elfennau penodol yn cael eu cynnal pan fydd pryderon neu wybodaeth yn galw am gamau gweithredu dilynol.

Disgwylir i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru hefyd ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn cyfuno gwybodaeth a phrofiadau cyffredin y 22 Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant gan gynnig fframwaith ar gyfer llunio a gweithredu atgyfeiriadau, camau gweithredu a chynlluniau diogelu plant unigol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'r agenda ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant.

"Yr egwyddor gadarn sy'n sylfaen i'r canllawiau yw bod cyfrifoldeb ar bob unigolyn ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, a gydag oedolion a allai achosi niwed i blant, i amddiffyn plant rhag niwed. Ni all unrhyw asiantaeth lwyddo i amddiffyn plant yn effeithiol trwy weithio ar ei phen ei hun. Esbonia'r canllawiau'n glir sut y dylai unigolion ac asiantaethau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio trwy bartneriaethau effeithiol er mwyn adnabod plant sy'n agored i niwed, eu diogelu rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i wella'r canlyniadau ar eu cyfer." (Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008)

Mae'r gweithdrefnau'n ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â diogelu, gan gynnwys cyfryngau newydd lle gall camdriniaeth ddigwydd, fel y rhyngwyd, ac maen nhw'n ymgorffori gwersi o ymchwil ac ymarfer mewn rhannau eraill o'r byd. Mae gweithdrefnau cyffredin Cymru wedi'u cyflawni drwy waith Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Cymru Gyfan sydd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers llunio Gweithdrefnau Cymru Gyfan yn 2002.

Cymorth penodol i blant

Un o negeseuon pwysig adroddiad Waterhouse – yr adroddiad arwyddocaol oedd yn canolbwyntio ar gam-drin eang yn y system gofal – oedd methiant oedolion i wrando'n iawn ar blant, a arweiniodd at ganlyniadau erchyll i'r plant a'r bobl ifanc hynny na chafodd wrandawriad ac a gafodd eu cam-drin yn ddiweddarach.

Mae plant sy'n byw mewn cartrefi preswyl i fod i gael amrywiaeth o fesurau i'w cynorthwyo i fynegi eu barn am y gofal maen nhw'n ei dderbyn yn ogystal â'r cyswllt sydd ganddyn nhw â'u Gweithwyr Cymdeithasol a'u gweithwyr allweddol o fewn y cartrefi preswyl. Bydd pob plentyn sy'n derbyn gofal yn gallu cysylltu â Swyddog Adolygu Annibynnol a dylai allu cysylltu ag ymwelydd annibynnol a neu eiriolwr proffesiynol annibynnol. Yn unol â Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 adran 118, rhaid penodi swyddog Adolygu Annibynnol i gymryd rhan mewn adolygiadau statudol i ystyried cynllun gofal plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Y Swyddog Adolygu Annibynnol sy'n cadeirio ac yn cofnodi cyfarfodydd Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ac argymhellion, a bydd yn monitro effeithiolrwydd cynllun yr Awdurdod Lleol. Lle bo'n briodol, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cyfarfod â'r plentyn cyn yr adolygiad i glywed beth yw ei ddyheadau a'i deimladau a bydd yn cynorthwyo'r plentyn i gymryd rhan yn yr adolygiad.

Crëwyd rôl yr Ymwelydd Annibynnol yn y Deyrnas Unedig dan Ddeddf Plant 1989 i fod yn gyfaill i blant a phobl ifanc mewn gofal. Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofyniad statudol fod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac sydd ag ychydig o gyswllt yn unig neu ddim o gwbl â'u rhieni biolegol yn gallu cael oedolyn yn eu bywyd a all roi cymorth a chynghor iddyn nhw, a chymryd diddordeb yn eu bywyd.

Yng Nghymru mae pob awdurdod lleol hefyd yn comisiynu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc yn y system gofal. Disgwylir i eiriolwyr sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed ym mhob penderfyniad sy'n cael ei wneud amdano, a chynorthwyo plant a phobl ifanc i wneud cwynion am unrhyw faterion sy'n eu poeni yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu iddyn nhw. Maen nhw'n annibynnol o'r awdurdod lleol.

Mae plant a phobl ifanc hefyd yn gallu cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru. Prif amcan y Comisiynydd, a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad Waterhouse, yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru. Mae holl waith y corff yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Un swyddogaeth allweddol sydd gan y swyddfa yw ei gwasanaeth cyngor a chymorth. Mae hon yn ffynhonnell gyfrinachol am ddim o gymorth i blant a phobl ifanc neu'r sawl sy'n gofalu amdany'n nhw. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i gyswllt uniongyrchol gan blant neu eu cynrychiolwyr a'i brif nod yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnig cyngor annibynnol a diduedd ar sail y CCUHP. Mae'r gwasanaeth hwn yn

canolbwyntio ar y plentyn ac ar y datrysiaid ac felly mae'n ceisio datrys problemau'n gyflym ac ar y lefel ffurfiol isaf ac osgoi gweld problemau'n cael eu dyrchafu i lefelau sefydliadol uwch lle bo'n bosibl. Mae gan y Comisiynydd ystod o bwerau y gall eu defnyddio os yw'n ystyried nad yw'r materion mae'n eu codi yn derbyn ymateb priodol.

I grynhoi, ceir cyfoeth o reoliadau a chanllawiau ymarfer da sy'n golygu bod gofal preswyl yn llawer mwy diogel i blant a phobl ifanc heddiw nag yr oedd 20 neu 30 mlynedd yn ôl ond nid yw hynny'n golygu y dylem orffwys ar ein rhwyfau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cynnal adolygiadau i'r ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal, y sawl sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yn codi o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiynydd oedd yn dangos bod llawer o blant a phobl ifanc mewn gofal yn anymwybodol fod y gwasanaethau eiriolaeth yn bodoli na bod ganddyn nhw hawl i eiriolaeth. Canfu'r swyddfa nad oedd llais y plentyn yn cael ei glywed o hyd pan ddylai fod, ac nad yw'r mesurau diogelwch a ddylai fod yn weithredol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawriad bob amser yn gweithio mor effeithiol ac effeithlon ag y dylen nhw.

Adroddiad Waterhouse - 14 blynedd yn ddiweddarach

Rydym ni eisoes wedi cyfeirio at y newidiadau sylweddol sydd wedi'u gwneud i'r dirwedd gwarchod a diogelu plant yng Nghymru, a'r fframwaith sydd bellach wedi'i sefydlu i gynorthwyo a gofalu am rai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed. Rydym ni'n fodlon fod plant a phobl ifanc bellach yn llawer mwy diogel mewn gofal nag yr oedd nhw ar adeg cyhoeddi adroddiad Waterhouse, a bod seilwaith clir o fesurau gwirio'n bodoli sydd wedi'u cynllunio i atal y cam-drin eang a pharhaus a ddioddefwyd gan blant a phobl ifanc mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru yn y 1970au a'r 1980au. Mae'n werth ailedrych ar brif argymhellion Waterhouse ac edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ers Waterhouse, yn ogystal ag ystyried mesurau diogelu pellach sydd angen eu sefydlu i gynnal y cynnydd hwn.

Roedd adroddiad Waterhouse yn cynnwys 72 o argymhellion, gan gynnwys:

1. Penodi Comisiynydd Plant annibynnol i Gymru i sicrhau parch i hawliau plant a gwarchodaeth i bobl sy'n chwythu'r chwiban. Dylai'r Comisiynydd fod yn atebol i Gynulliad Cymru.
2. Dylai pob awdurdod gwasanaethau cymdeithasol benodi Swyddog Cwynion Plant, fydd yn gweld unrhyw blentyn sy'n cwyno; yn ymgynghori â rheolwyr ynglŷn â sut i ymateb; ac yn sicrhau bod plant yn gallu cwyno i gorff allanol annibynnol os ydyn nhw'n dymuno.
3. Dylai pob awdurdod lleol sefydlu gweithdrefnau chwythu chwiban clir.
4. Dylai methiant ar ran staff i adrodd am amheuan o gam-drin plentyn gan unrhyw un arall fod yn drosedd disgyblu.

5. Drwy gydol eu hamser mewn gofal, ac am gyfnod wedi hynny, dylai plant gael gweithiwr cymdeithasol unigol, sy'n gorfod ymweld â nhw bob wyth wythnos.
6. Pan fydd plant yn rhedeg i ffwrdd o gartrefi plant, dylai'r heddlu eu holi pam eu bod wedi rhedeg i ffwrdd, ac ni ddylid eu dychwelyd yn awtomatig.
7. Dylid cynnal adolygiad cenedlaethol o gyflog, statws a datblygiad gyrfa staff gofal plant preswyl a gweithwyr cymdeithasol yn y maes i sicrhau digon o ymgeiswyr o ansawdd priodol.
8. Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol fod yn wylidwrus wrth recriwtio staff a rhieni maeth.
9. Dylid sefydlu asiantaeth reoleiddiol annibynnol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru.

Swyddfa'r Comisiynydd

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru yn 2001 gyda chylch gwaith deddfwriaethol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r swyddfa ar hyn o bryd yn destun adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant. Llywodraeth Cymru sydd wedi comisiynu'r adolygiad gyda golwg ar wneud argymhellion fydd yn cryfhau rôl ac effaith y Comisiynydd ymhellach.

Swyddogion cwynion

Sefydlwyd swyddogion cwynion plant mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yn dilyn cyhoeddi adroddiad Waterhouse ond dros y blynyddoedd diweddar yn sgil yr hinsawdd economaidd heriol mewn nifer fawr o awdurdodau lleol mae'r rhain wedi'u cyfuno â swyddogion cwynion oedolion. O fis Awst 2014 mae disgwyl i adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn awdurdodau lleol ddilyn canllawiau cwyno newydd Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau newydd yn canolbwyntio ar ddatrys cynnar yn lleol a mynd i'r afael â phroblemau'n gyflym ac yn effeithiol ac maen nhw'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc:

"Dylai deunydd hygyrch wedi'i hyrwyddo'n dda am y weithdrefn gwynion fod ar gael am ddim mewn fformatau amrywiol, yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn arbennig i blant a phobl ifanc. Gall Comisiynydd Plant Cymru ddarparu cymorth ar gyfer datblygu deunydd priodol."

"Mae gan blant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal hawl i gael eiriolwr annibynnol wrth wneud cwyn neu sylwadau."

"Dylai fod gan y Swyddog Cwynion ddigon o gapasiti, awdurdod ac annibyniaeth i reoli'r broses gwynion a sylwadau yn effeithiol, i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle bo hynny'n briodol, ac i gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth."

"O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001, gall y Comisiynydd Plant roi "cymorth" i blentyn perthnasol mewn rhai achosion. Gall hynny gynnwys achosion lle bo'r plentyn perthnasol yn cyflwyno cwyn neu sylw i, neu am, ddarparwr gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru. Gall "cymorth" gynnwys trefnu cynrychiolaeth a/neu roi cyngor neu gymorth i unrhyw berson".

Bydd yn bwysig monitro effaith y newidiadau hyn ar blant a phobl ifanc a pha mor hawdd neu anodd maen nhw'n ei chael hi i fynegi pryderon a chyflwyno cwyn neu sylw. Byddai'n gam yn ôl pe bai'r newidiadau hyn yn arwain at lai o blant yn teimlo y gallen nhw fynegi pryder neu wneud sylw ac yn un a allai gyfaddawdu'r rôl bwysig y gall gweithdrefnau cwyno ei chwarae yn diogelu a hyrwyddo hawliau plant.

Ar hyn o bryd nid yw'n ymddangos bod system yn bodoli i fonitro'r holl gwynion a wneir gan blant a phobl ifanc yng Nghymru. Nid oes un asiantaeth neu gorff canolog amlwg yn casglu, dadansoddi a chyhoeddi'r wybodaeth hon fel mater o drefn er bod pob awdurdod lleol yn gorfod llunio adroddiad blynyddol sy'n pennu ystod o wybodaeth am yr holl gwynion am y gwasanaethau cymdeithasol.

Trefniadau chwythu'r chwiban

Dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 mae gan Gomisiynydd Plant Cymru awdurdod statudol i adolygu a monitro'r trefniadau sydd gan rai cyrff cyhoeddus penodol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant mewn ymateb i ymdrin â chwynion neu sylwadau. Cyflwynwyd gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn y 22 Awdurdod Lleol. Cyhoeddodd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru "Datgan Pryderon" yn 2004, oedd yn adroddiad ar weithdrefnau a threfniadau ar gyfer cwynion, sylwadau a chwythu'r chwiban o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol plant ac fel rhan o'r gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwnnw derbyniodd gopïau o weithdrefnau chwythu'r chwiban yr holl awdurdodau lleol.

Nid yw methu ag adrodd amheumon o gam-drin yn drosedd disgyblu ym mhob ardal awdurdod lleol. Fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth ar gyfer "Datgan Pryderon" dim ond 12 o awdurdodau lleol a adroddodd fod methu ag adrodd amheumon o gam-drin yn drosedd disgyblu. Nid oes gwybodaeth ddiweddar ar gael i ddangos a yw'r sefyllfa hon wedi gwella ers 2004 ond mae'r hinsawdd ar gyfer dal gweithwyr proffesiynol yn atebol wedi newid yn sylweddol ers "Datgan Pryderon". Yng ngoleuni sgandalau cam-drin plant diweddar, mae Syr Keir Starmer QC, y cyn gyfarwyddwr erlyniadau cyhoeddus, wedi datgan yn gyhoeddus y dylai methiant ar ran gweithwyr proffesiynol i adrodd am gam-drin fod yn drosedd. Er y gallwch ddadlau o blaid ac yn erbyn dull o'r fath, mae'n dangos bod systemau cyfredol ar gyfer gwarchod plant a'u gallu i ddiogelu pob plentyn yn effeithiol wedi cael eu cwestiynu.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd ymrwymiad cyfreithiol yng Nghymru yn 2016 i adrodd am unrhyw blentyn neu oedolyn y credir eu bod mewn perygl o ddioddef cam-drin neu esgeulustod. Caiff y pwerau newydd eu rhoi ar waith fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a dderbyniodd Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014, ac sy'n ffurfio sail fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru.

Cyswllt rheolaidd plant gyda gweithiwr cymdeithasol

Mae plant a phobl ifanc yn cwyno nad ydyn nhw'n gweld digon o'u Gweithiwr Cymdeithasol. Mewn dau ddigwyddiad a drefnwyd gan swyddfa'r Comisiynydd Plant ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system gofal yng Nghymru ym mis Gorffennaf ac Awst eleni roedd hon yn gŵyn gyffredin gan y plant a'r bobl ifanc oedd yn bresennol. Mae adnoddau sy'n edwino a llwyth gwaith cynyddol yn annhebygol o wella'r sefyllfa hon, sy'n cyfaddawdu gallu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ofalu'n iawn am y plant y maen nhw'n gyfrifol amdany'n nhw a'u diogelu.

Rhaid i blant a phobl ifanc sy'n cael eu gosod mewn lleoliadau gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn ymweliad gan eu Gweithiwr Cymdeithasol yn ystod eu hwythnos gyntaf mewn gofal ac yna pob chwe wythnos oni bai eu bod mewn lleoliad parhaol. Yn yr achosion hynny, rhaid cael ymweliad bob tri mis. Rhaid i blant a phobl ifanc weld y Gweithiwr Cymdeithasol ar eu pen eu hun a dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol hysbysu Swyddog Adolygu Annibynnol y plentyn am unrhyw bryderon.

Plant yn rhedeg i ffwrdd o gartrefi gofal

Caiff ymarfer mewn perthynas â chyswllt yr heddlu gyda phlant sy'n mynd ar goll o ofal ei ragnodi yng Nghymru drwy'r 'Protocol Cymru Gyfan – Plant sydd ar goll' a gyhoeddwyd yn 2011. Datblygwyd y protocol gan 'Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' ac fe'i cadarnhawyd gan weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu sut y dylai asiantaethau gan gynnwys yr heddlu weithio gyda'i gilydd. Ym mis Mehefin 2013 ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Deddfwriaeth a Pholisi y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol ar ran y Dirprwy Weinidog Plant at holl Brif Swyddogion Gweithredol yr awdurdodau lleol a Chadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol i'w hatgoffa am y protocol a'u hannog i'w ddilyn, yn sgil adroddiadau nad oedd yn cael ei weithredu'n gyson drwy Gymru.

Mae rhai ardaloedd Heddlu wedi bod yn fwy arloesol na'i gilydd. Mae'r prosiect Plant ar Goll yng Ngwent a sefydlwyd gyda chyllid loteri'n dod â gweithwyr sector cyhoeddus at ei gilydd o nifer o asiantaethau mewn canolbwynt ar gyfer plant coll sy'n ceisio ymyrryd yn gynnar i ganfod pam fod plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o gartref. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y canolbwynt yn cael effaith gadarnhaol ar y nifer o blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll.

Adnoddau i'r gwasanaethau cymdeithasol

Mae trefniadau recriwtio'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwella'n sylweddol dros y 14 blynedd diwethaf ar gyfer staff gofal cymdeithasol a gofalwyr maeth. Mae llawer o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd i wella'r modd y caiff staff gofal preswyl eu recriwtio a'u hyfforddi yn ogystal â gwella eu hansawdd. Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio mewn lleoliadau preswyl gael Gwiriad Manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac mae gofynion hyfforddi ar gyfer rheolwyr a staff gofal wedi'u cyflwyno gan Gyngor Gofal Cymru. Mae'n deg dweud nad yw cyflog a statws staff gofal preswyl wedi derbyn sylw digonol gyda'r aelodau lleiaf profiadol a lleiaf cymwysedig o grŵp staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n ddwys gyda'r grwpiau cleient mwyaf heriol ac anodd 24/7. Mae'r sefyllfa hon yn annhebygol o newid a bydd yn effeithio ar ansawdd y staff mae cartrefi gofal yn gallu eu denu.

Cyrff rheoleiddio

Fel y soniwyd yn flaenorol sefydlwyd Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2007, gan ddisodli Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Prif swyddogaeth yr Arolygiaeth hon yw rheoleiddio ac arolygu cartrefi gofal a chartrefi plant/ysgolion.

Crynodeb

Mae Ymgyrch Pallial wedi cynnig cyfle i adfyfrio ar rai o'r newidiadau a gafwyd mewn ymarfer gofal plant ers cyhoeddi adroddiad Waterhouse 'Ar Goll mewn Gofal' yn 2000. Bedair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach mae llawer wedi gwella i blant a phobl ifanc mewn gofal; maen nhw'n fwy diogel, mae dealltwriaeth wedi tyfu fod llais plant yn hanfodol ar gyfer ymarfer da a bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal hawl i eiriolwr. Ond, gyda niferoedd cynyddol o blant yn dod i mewn i'r system gofal mae'n bwysig bod y gwelliannau sydd wedi digwydd dros y deng mlynedd diwethaf yn cael eu cynnal a'u datblygu ymhellach

Casgliad Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

Cyn bodolaeth Ymgyrch Pallial, rwyf i'n cofio cael fy holi'n heriol gan rai cyrff a'r cyfryngau pam fy mod yn credu bod angen edrych unwaith eto ar honiadau goroeswyr o gam-drin mewn cartrefi gofal ddegawdau'n ôl. Rwyf i'n cofio i mi gael fy meirniadu y byddai hyn yn tanseilio gwaith Waterhouse. Ond roedd y pwynt sylfaenol wedi'i golli - nid tanseilio ymchwiliad blaenorol oedd hyn, ond gwranddo ar leisiau goroeswyr a galluogi sefydliadau i ddysgu o gamgymeriadau blaenorol fel bod modd sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn gofal heddiw yn ddiogel. Roeddwn i'n benderfynol y dylai unrhyw ymholiad neu ymchwiliad newydd osod llais y goroeswyr yn ganolog yn ei waith.

Pan ddechreuodd Ymgyrch Pallial, roedd yn amlwg o'r dechrau mai ymchwiliad dan arweiniad y goroeswyr fyddai hwn. Ym mis Rhagfyr 2014, gwelsom ni'r euogfarn gyntaf yn sgil Ymgyrch Pallial, pan ddedfrydwyd John Allen, perchennog a rheolwr cyn gartrefi plant yng ngogledd Cymru, i oes o garchar am 33 o droseddau rhyw difrifol yn erbyn 19 o oroeswyr. O'r diwedd mae lleisiau'r goroeswyr hyn wedi'u clywed.

Bwriad yr adroddiad cryno hwn yw edrych ar y prosesau cynnar a sefydlwyd gan Ymgyrch Pallial a thynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd. Yn hollbwysig, mae'n tynnu ar rai o brofiadau'r goroeswyr. Fy ngobaith i wrth i Ymgyrch Pallial fynd yn ei flaen yw y byddwn ni'n gallu edrych ar brosesau allweddol eraill a nodi rhai gwersi sy'n datblygu i'w cynnwys mewn ymchwiliadau yn y dyfodol.

Rwyf i'n credu bod y gwaith hwn yn amserol. Rwyf i'n ysgrifennu hwn ar adeg sy'n gweld amrywiol ymchwiliadau ar waith sy'n edrych ar achosion o gam-drin plant yn y gorffennol ac mae canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi ar sicrhau'r dystiolaeth orau mewn achosion o gam-drin plant. Fy ngobaith yw y bydd yr adroddiad hwn a'r gwersi a amlygir ynddo yn cynnig dealltwriaeth ddefnyddiol fydd yn dangos sut mae un achos o ymchwilio wedi llwyddo i reoli ymchwiliad a arweiniwyd gan oroeswyr.



0808 801 1000 / 80800*

post@childcomwales.org.uk

* Text us for free (start your message with COM)

@childcomwales

www.childcomwales.org.uk

Write to us:

Children's Commissioner for Wales

Freepost RRGL XLYC BHGC

Swansea SA7 9FS